# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>15 GORFFENNAF 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>15 JULY 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **<u>MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO</u>**

Dim materiion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2019.

**4** **<u>COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL</u>** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2019.

**5** **<u>BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH</u>** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **<u>CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2018/19</u>** (Tudalennau 29 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **<u>CRONFA'R DEGWM</u>** (Tudalennau 41 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **<u>RHAGLEN ARFOR</u>** (Tudalennau 55 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**9** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** (Tudalennau 61 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**10** **<u>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</u>** (Tudalennau 105 - 106)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff

gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**11** **OPSIYNAU AR GYFER BYW Â CHYMORTH (ANABLEDDAU DYSGU)** (Tudalennau 107 - 122)

Cyflwyno adroddiad gan Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**12** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 123 - 126)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**13** **TAI CYNGOR - DATBLYGU 10 NEU FWY O UNEDAU** (Tudalennau 127 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, RG Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 12)<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 11)<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) / Trawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Pennaeth Dros Dro - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 14)<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (MPE)<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (ar gyfer eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Robin Williams diddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 11 ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd Glyn Haynes (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 14 ar yr agenda.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

DRAFT

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2019 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2019 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf, 2019 a Chwefror, 2020, a nodwyd y newidiadau canlynol -

Eitemau Newydd ar gyfer cyfarfod 15 Gorffennaf, 2019 -

- Eitem 3 - Cronfa'r Degwm (cymeradwyo trefniadau newydd)
- Eitem 4 - Trefniadau Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu): Opsiynau Comisiynu
- Eitem 7 - Tai Cyngor: Datblygiadau o 10 uned neu fwy

Eitemau a aildrefnwyd -

- Eitem 15 - Anableddau Dysgu: Trawsnewid Cyfleoedd Dydd (caniatáu’r broses ymgysylltu) o 15 Gorffennaf i gyfarfod 16 Medi, 2019 ac o ganlyniad, tynnu’r eitem Anableddau Dysgu: Trawsnewid Cyfleoedd Dydd (adrodd ar ganlyniad y broses ymgysylltu a chynigion ar gyfer trawsnewid) a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 25 Tachwedd oddi ar y Rhaglen Waith hyd oni cheir cadarnhad ynghylch yr amserlen.
- Eitem 22 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 2 2019/20 - adolygu'r trefniadau ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith a'u cadarnhau yn dilyn trafodaeth fewnol.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Gorffennaf, 2019 i Chwefror, 2020 fel y’i cyflwynwyd.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO’R CERDYN SGORIO - CHWARTER 4 2018/19

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) / Trawsnewid yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2018/19.

Rhoes yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol grynodeb o berfformiad ar ddiwedd 2018/19, a fu, er yn flwyddyn heriol arall i'r sector cyhoeddus, yn dda ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o feysydd wedi perfformio’n unol â’u targedau ac eithrio dau DP yn y Gwasanaethau Oedolion ac un DP yn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (gweler paragraff 2.1.9). Mae mesurau i fynd i'r afael â thanberfformio yn y meysydd hyn yn cael eu cymryd a'u monitro fel y disgrifir. Er bod Chwarter 4 wedi gweld gwelliant o gymharu â’r chwarter blaenorol mewn perthynas â phresenoldeb yn y gwaith gwaith, roedd y sgôr gronnus ar gyfer y flwyddyn, sef 10.34 WDL fesul CALl dros y targed o 9.95 WDL fesul CALl ac mae'n parhau i fod yn faes o ffocws parhaus. Mae’r defnydd o gyfryngau digidol - App Môn a'r wefan - i gysylltu a rhyngweithio â'r Cyngor wedi parhau i dyfu dros y flwyddyn gyda phresenoldeb cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn cynyddu eto yn Chwarter 4. Mae hyn yn gadarnhaol a gobeithio y

DRAFT

bydd yn arwain at fwy o ddefnydd o ffurflenni ar-lein ac ymgysylltu ar-lein a fydd yn gyrru'r rhaglen newid sianel ddigidol i alluogi preswylwyr i dalu a gofyn am wasanaethau ar-lein. Achubodd yr Aelod Portffolio ar y cyfle i longyfarch staff a chontractwyr Gwasanaeth Rheoli Gwastraff y Cyngor yn dilyn cyhoeddi arolwg blynyddol gan Cadwch Gymru'n Daclus a roddodd Ynys Môn ar frig tabl awdurdodau lleol gyda sgôr o 100% am strydoedd Gradd B neu uwch.

Roedd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn cytuno fod y data perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn galonogol ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref i barhau i wneud gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol a bod y canlyniad yn y pen draw i'w briodoli i'r gwaith parhaus sy'n digwydd trwy yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Craffu a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn absenoldeb cynrychiolwyr y Pwyllgor Sgriwtini, soniodd y Cadeirydd am y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2018 lle'r oedd Aelodau wrth cydnabod perfformiad da pob DP ar draws y gwasanaethau ond hefyd wedi herio'r Aelodau Portffolio a'r Swyddogion ar y meysydd lle roedd perfformiad wedi disgyn yn fyr ac wedi gofyn am gadarnhad eu bod yn cael sylw, ac wedi ceisio sicrwydd hefyd bod y patrwm gwariant sydd ar i fyny yn y Gwasanaethau Oedolion yn cael ei reoli yn wyneb y pwysau cynyddol. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini wedi cymryd sicrwydd o'r mesurau lliniaru arfaethedig i ymdrin â'r meysydd hynny lle roedd perfformiad yn is na'r targed ac yn hapus i'w hargymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Wrth gloi, fe wnaeth y Cadeirydd gydnabod gwaith a wnaed gan staff y Cyngor i gyrraedd y sefyllfa hon a dywedodd ei bod yn hawdd canolbwyntio ar yr ychydig o feysydd coch ar y Cerdyn Sgorio a methu â rhoi sylw priodol i'r meysydd Gwyrdd lle mae perfformiad gwasanaeth wedi cyrraedd y targed. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno bod y Cyngor, ers cyflwyno'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a gweithredu arno, wedi esblygu ac aeddfedu o ran gwerthuso ac adrodd yn systematig ar ei berfformiad.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2018/19, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Rheoli yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i dderbyn y mesurau lliniaru mewn perthynas â'r meysydd hynny a nodir yn yr adroddiad**

## 6. DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) / Trawsnewid yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflwyno Flynyddol ar gyfer 2019/20. Mae'r ddogfen yn egluro sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol dros y deuddeg mis nesaf yng nghyd-destun amcanion ehangach y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-22.

Dywedodd y Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod y ddogfen yn darparu manylion ynghylch dyheadau'r Cyngor am y flwyddyn ac mae'n seiliedig ar y gwaith a wnaed mewn adolygiadau gwasanaeth blynyddol ac mewn cyfarfodydd cynllunio busnes gwasanaeth blynyddol sydd, gyda'i gilydd, wedi dylanwadu ar ddisgwyliadau'r Cyngor yn gorfforaethol am y flwyddyn i ddod.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn nodi ei fod yn fodlon â chynnwys y Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'i fod yn credu bod modd gwireddu'r dyheadau yr oedd eu hadlewyrchu ond yn ymwybodol hefyd y gall digwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ddrysu unrhyw gynlluniau. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith pam fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn cael ei chyhoeddi dri mis i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd er mai'r nod oedd gosod ynddi yr amcanion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a gofynnodd a oedd yn bosibl ei chyhoeddi'n gynharach. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, er y byddai'n ddelfrydol ei chyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill bob blwyddyn, mae'n rhaid yn gyntaf cwblhau gweithdrefnau cau lawr ar gyfer diwedd y flwyddyn flaenorol, e.e. cyfrifon y Cyngor,

DRAFT

ac yn ychwanegol at hynny, mae'r Ddogfen Gyflawni yn cael ei llywio gan gydnabyddiaeth y gwasanaethau o'r hyn sydd angen ei wneud yn y flwyddyn i ddod ac nid yw'r gwaith cynllunio busnes ar gyfer hyn yn cael ei gwblhau tan ddechrau mis Ebrill.

Er yn cydnabod y gallai cyhoeddi'r ddogfen yn gynharach fod yn her, roedd y Pwyllgor Gwaith o'r farn y dylai hyn fod yn nod a chytunwyd i wneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw.

**Penderfynwyd –**

- **Rhoi'r hawl i Swyddogion drwy law'r Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol i ymgymryd â'r dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf, 2019.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau pa mor ymarferol ydyw cyflawni'r ddogfen hon fel cynllun sydd yn nodi gwaith y Cyngor wedi'i alinio â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer ei gyflawni yn ystod 2018/19.**
- **Bod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn cael ei chyhoeddi yn gynharach yn y flwyddyn ariannol yn y dyfodol**

**7. MONITRO CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 4 2018/19**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw dros dro ar gyfer 2018/19, gan gynnwys y prif amrywiadau yn y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, ar ôl rhagamcan y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o Chwarter 1 ymlaen, bod y sefyllfa wirioneddol ar ddiwedd Chwarter 4 2018/19 o orwariant o £ 633k yn well na'r disgwyl ac mae wedi gwella'n fawr o gymharu â Chwarter 2 pryd rhagwelwyd gorwariant sylweddol. Erys pwysau o hyd ar nifer o gyllidebau gwasanaeth gyda gorwariant net o £ 2,287k, a'r prif feysydd ble mae'r pwysau mwyaf yw'r rhai yr adroddwyd arnynt drwy gydol y flwyddyn sef y Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Addysg Canolog. Mae'r gwelliant i'w briodoli'n bennaf i arbedion unwaith ac am byth ar gyllidebau corfforaethol a'r ymdrechion a wnaed gan wasanaethau o ddiwedd Chwarter 2 i gwtogi ar wariant gydag effeithiau cronnus hynny wedi cyfrannu at leihau'r gorwariant. Gan edrych ymlaen at 2019/20, bydd y Cyngor yn dal lefel resymol o gronfeydd wrth gefn cyffredinol, ond ar £ 5.9m, maent yn parhau i fod yn is na'r lefel o £ 6.76m a argymhellwyd ac a gytunwyd gan y Cyngor, ac mae cyllidebau gwasanaethau wedi'u cynyddu i adlewyrchu'r galw cynyddol. Dylai hyn, ynghyd â monitro sefyllfa'r gyllideb yn barhaus yn ystod y flwyddyn, sicrhau mai cyfyngedig yw'r risg o orwariant sylweddol yn ystod 2019/20.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, er gwaethaf y ffaith fod y sefyllfa'n well ar y cyfan, mae tri o wasanaethau'r Cyngor - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Dysgu ac Oedolion yn parhau i fod dan bwysau. Er y dylai'r arian ychwanegol y darperir ar ei gyfer yng nghyllideb 2019/20 helpu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i fynd i'r afael â'i gostau cynyddol yn yr adran Plant sy'n Derbyn Gofal, mae hyn yn dibynnu ar i'r galw yn y gwasanaeth hwn ac yn y Gwasanaethau Oedolion aros yn gyson. Cyfeiriodd y Swyddog at y sefyllfa ariannol yn ysgolion yr Ynys nad oedd wedi'i dogfennu yn yr adroddiad ond a oedd wedi gwaethygu erbyn diwedd 2018/19 gyda 12 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd bellach mewn diffyg o gymharu â 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd ar ddiwedd 2017/18. Mae'r ysgol arbennig hefyd yn parhau i fod mewn diffyg. O ganlyniad, mae balansau ysgolion wedi gostwng o £ 1.8m ar ddiwedd 20 17/18 i £ 633k ar ddiwedd 2018/19. Felly mae angen cadw golwg ar y gyllideb ysgolion wrth ystyried y ffigurau.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu’r canlyniadau gwell na'r disgwyl ar gyfer 2018/19 gan gydnabod bod hyn yn rhannol oherwydd arbedion corfforaethol unwaith ac am byth na fydd efallai’n cael eu hail-adrodd yn y dyfodol ond hefyd gan gydnabod bod gwasanaethau wedi chwarae eu rhan drwy leihau gwariant. Cytunwyd bod y rhagolygon yn parhau i fod yn heriol a bod angen hefyd cadw llygad agos ar y sefyllfa ariannol mewn ysgolion.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi’r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a’r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19.**
- **Nodi’r crynodeb o’r cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C.**
- **Nodi’r sefyllfa mewn perthynas â’r Rhaglen Buddsoddi i Arbed a amlinellir yn Atodiad CH.**
- **Nodi’r sefyllfa o ran arbedion effeithiolrwydd ar gyfer 2018/19 yn Atodiad D.**
- **Nodi’r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 yn Atodiadau DD ac E.**
- **Nodi bod yr alldro yr adroddir arno yn y ddogfen yn parhau i fod yn amodol hyd oni fydd yr archwiliad statudol wedi’i gwblhau**

**8. ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2018/19**

Cyflwynwyd er sylw’r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi’r sefyllfa alldro cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £ 46.521m gyda gwariant o £ 21.650m yn unig ar 31 Mawrth, 2019 sy’n cyfateb i 47% o'r gyllideb. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y tanwariant mawr yn erbyn chwe phrosiect mawr y darperir manylion amdanynt ym mharagraff 2.2 yr adroddiad; nid oedd y rhain yn symud ymlaen gymaint ag y rhagwelwyd oherwydd oedi a achoswyd gan amrywiol resymau ac, yn achos y Briffordd Newydd i Wylfa Newydd, oherwydd gohiriad y prosiect. Bydd yr arian ar gyfer y prosiectau yn cael ei gario drosodd i 2019/20 heb golli adnoddau i'r Cyngor.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y canlyniad yn unol â'r rhagamcanion yn Chwarter 2 a 3. Gyda phrosiectau cyfalaf mawr fel arfer mae oedi annisgwyl yn digwydd ac nid yw'n anarferol gweld gwariant ar y mathau hyn o brosiectau yn llithro.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Panel Sgriwtini Cyllid am ei gyfraniad hefyd o ran craffu ar hyn ac adroddiadau monitro cyllideb eraill.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro ddrafft y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 sy’n destun Archwiliad.**
- **Cymeradwyo cario £3.065m drosodd i 2019/20 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cario drosodd i 2019/20 yn unol â pharagraff 4.2, Atodiad A.**

DRAFT

## 9. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod manylion incwm a gwariant o dan y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 yn Atodiad A i'r adroddiad ac yn dangos bod y cyfrif wedi gorwario £ 121k ar yr ochr refeniw gydag incwm £ 55k yn is na'r gyllideb wreiddiol a gwariant £ 66k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Roedd gwariant cyfalaf £ 7.3m yn is na'r gyllideb fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad. Mae'r gwarged, sy'n cyfuno refeniw a chyfalaf, £ 7.2m yn well na'r gyllideb sydd, i raddau helaeth, i’w briodoli i'r gwariant cyfalaf is na'r gyllideb.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod balans y Cyfrif Refeniw Tai, sef £ 8,387k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19, wedi'i glustnodi benodol ac y caiff ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at ariannu gwariant CRT yn y dyfodol yn unig.

**Penderfynwyd nodi’r sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.**

## 10. POLISI ADENNILL DYLEDION CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo’r Polisi Dyledion Corfforaethol fel y’i atodwyd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y polisi yn cyflwyno, er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, yr egwyddorion i'w mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn wrth gasglu dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor fel y manylir arnynt ar dudalen 3. Darllenodd yr Aelod Portffolio yr egwyddorion fel y'u rhestrwyd a thynnodd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gan y Cyngor ymagwedd glir a chytûn tuag at gasglu dyledion sy'n ei alluogi i fynd i'r afael â'r amrywiol ddyledion sy'n ddyledus ac i ddelio'n briodol ag unigolion / busnesau sydd mewn dyled i'r Cyngor.

Cytunodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod cael proses yn ei lle i adennill dyledion yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni ar hyn o bryd yn bwysig ond gan gydnabod hefyd y gallai rhai unigolion ei chael hi'n anodd talu ac efallai y bydd angen help arnynt i gyflawni eu rhwymedigaethau ariannol tra bod eraill yn cael eu hystyried yn fregus ac y bydd angen eu trin â sensitifrwydd a disgresiwn. Felly, bydd y Cyngor yn gweithredu dull cefnogol o adennill dyledion sy'n diwallu anghenion unigolion ac yn cynnig eu cyfeirio at asiantaethau cymorth annibynnol. Mae'r Polisi yn egluro'r egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio wrth adennill yr holl ddyled ac y bydd y polisïau gweithdrefnol ychwanegol yn rhoi mwy o fanylion am y trefniadau ar gyfer casglu dyled ym mhob un o'r meysydd penodol. Yn ogystal, mae'r Cyngor, ers peth amser, wedi bod yn gweithio ar wella ei brosesau ar gyfer gwneud taliadau gan gynnwys hwyluso taliadau ymlaen llaw a galluogi unigolion i sefydlu eu debydau uniongyrchol eu hunain i dalu Treth y Cyngor, ac i wneud cais am ostyngiadau ac eithriadau ar-lein. Bydd gwneud prosesau gweinyddol yn fwy effeithlon fel y gall pobl wneud mwy drostynt eu hunain yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio mwy ar adennill dyledion.

Wrth dderbyn y polisi, nododd y Pwyllgor Gwaith yn benodol ei fod yn gwneud darpariaeth ar gyfer unigolion a all fod mewn trafferthion ariannol ac sy’n ei chael hi'n anodd talu ac yn eu cyfeirio at sefydliadau a all gynnig cyngor a chefnogaeth bellach, ac roedd yn croesawu hynny.

DRAFT

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Dyledion Corfforaethol fel y'i cyflwynwyd.**

## 11. GOSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Dysgu ar yr ymateb i'r rhybudd statudol o'r cynnig i ostwng oedran mynediad Ysgol Henblas.

Adroddodd yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, y Cod Trefniadaeth 011/2018 ac yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill, 2019 i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion ar sail rhan-amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, i ddod i rym o 31 Awst, 2019, bod y rhybudd statudol yn hyn o beth wedi cael ei gyhoeddi ar 13 Mai, 2019 ac yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol 28 diwrnod ar y cynnig. Yn sgil y ffaith na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau, dywedodd yr Aelod Portffolio, mai'r argymhelliad yw bod y Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau'r cynnig yn derfynol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu na dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol yn ystod yr ymgynghoriad statudol na'r cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae perthynas gref rhwng yr ysgol a'r cylch sy'n darparu sylfaen dda ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb ac mae'r staff yn gefnogol i'r cynnig ac yn barod i edrych ar yr opsiynau o ran rhoi gofal 10 awr mewn ffordd sy'n gyfleus i rieni.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas, i fod yn weithredol o 31 Awst, 2019.**

## 12. ADRODDIAD CYNNYDD Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth ar gynnydd a gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Amlygodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol y wybodaeth ystadegol a gynhwysir yn yr adroddiad sy'n rhoi tystiolaeth bendant o'r perfformiad gwell yn Chwarter 4 2018/19 yn erbyn y dangosyddion gwasanaeth allweddol a gofnodwyd, ac sydd hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau a'r datblygiadau cadarnhaol sy'n digwydd o fewn y gwasanaeth cyfan. Mae'r Gwasanaeth bellach yn gweithio i Gynllun Datblygu Gwasanaeth thematig newydd 3 blynedd, sydd wedi disodli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, wrth ystyried yr adroddiad, wedi cydnabod y cynnydd a wnaed ac wedi llongyfarch y Gwasanaeth ar hynny ac wedi cymeradwyo ffurfio Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gweld yr un lefel o graffu ar Wasanaethau Oedolion â'r Gwasanaethau Plant.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd at y cwynion a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan y gwasanaeth gyda Chwarter 4 yn gweld gostyngiad yn nifer y cwynion Cam 1 tra bod 12 o ganmoliaethau wedi'u cofnodi yn ystod y chwarter. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Gwasanaeth 30 cwyn Cam 1 a 2 gŵyn Cam 2; nid oedd unrhyw ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon a chafwyd cyfanswm o 68 o ganmoliaethau yn dangos gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae staff yn cyfathrebu ac yn gwrando, eu proffesiynoldeb, eu gwybodaeth a'u heffeithiolrwydd a'r gefnogaeth a ddarperir. Datblygwyd a gweithredwyd polisïau ôl-ofal newydd yn ogystal â pholisi ar faterion ariannol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Pecyn Maethu newydd wedi arwain at nifer o ymholiadau am faethu ac mae rhai ohonynt wedi mynd ymlaen i gael eu hasesu; y gobaith yw y bydd y diddordeb newydd yn troi'n leoliadau ychwanegol yn Ynys Môn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

DRAFT

Wrth longyfarch y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar eu cynnydd parhaus, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am fwy o wybodaeth am yr effaith y mae buddsoddi mewn mesurau ataliol wedi'i chael a sut y gallai'r mesurau hynny fod yn darparu gwerth ychwanegol.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Tîm Teuluoedd Gwydn sy'n ceisio darparu ymyrraeth amserol i deuluoedd y mae angen cymorth arnynt yn gweithio ar hyn o bryd gyda 71 o blant y gallai 50 ohonynt o bosib fod wedi'u rhoi mewn gofal heb fewnbwn gan y tîm.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn debygol y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohonni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd.**

## 14. DARPARU'R GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF A GLANHAU STRYDOEDD

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) ynghylch cyflwyno Gwasanaeth Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd y Cyngor o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol i'r Pwyllgor Gwaith am y contract presennol sydd wedi cael ei ddarparu'n allanol gan Biffa Ltd. ers 2012 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 2021. Er mwyn helpu i benderfynu a fydd y gwasanaeth ar ôl Mawrth, 2021 yn cael ei gyflwyno trwy ail-gaffael yn allanol neu drwy ddod â'r contract yn fewnol, comisiynodd y Cyngor WRAP Cymru (heb unrhyw gost i'r Awdurdod) i gynorthwyo yn y broses werthuso ac i ddarparu asesiad o oblygiadau ariannol darpariaeth fewnol o gymharu â chost parhau i allanoli. Cafodd yr adroddiad gan WRAP Cymru ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac roedd yn manylu ar y ffactorau a'r risgiau ansoddol sy'n gysylltiedig â'r ddau opsiwn wedi'u rhannu'n feysydd penodol.

Amlinellodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y prif faterion i'w hystyried mewn perthynas â mewnoli / allanoli a beth oedd y ddau yn ei olygu. Pe bai'r Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo parhau i allanoli'r contract a dechrau proses gaffael ffurfiol er mwyn penodi contractwr, sef yr opsiwn a argymhellir, yna mae opsiynau prisio mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth y gellir ystyried eu cynnwys yn y dogfennau gwybodaeth tendr; ymhelaethodd y Swyddog ar y rhain a thynnodd sylw at yr ystyriaethau ynghlwm wrth bob un. Rhestrwyd y rhain yn argymhelliad 3 yr adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor Gwaith yr opsiynau o ran darparu gwasanaeth gyda'r Swyddogion ac wedi ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd, roedd yn cytuno, yn seiliedig ar ystyriaethau cost a gwerth gorau, mai parhau i allanoli'r gwasanaeth yw'r opsiwn mwyaf buddiol i'r Cyngor gan gymryd i ystyriaeth hefyd farn y Pwyllgor Sgriwtini ar y mater hwn ac ar bwyntiau eraill a godwyd mewn trafodaeth adeiladol ar y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 13 Mehefin.

DRAFT

Cododd y Pwyllgor Gwaith nifer o gwestiynau ar y wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnodd am eglurder hefyd ar hyd y contract gan nodi bod angen rhywfaint o hyblygrwydd. Ar ôl myfyrio ar y mater a'i drafod, ac ar ôl ystyried yr eglurhad a ddarparwyd gan Swyddogion a mewnbwn y Pwyllgor Sgriwtini, cytunodd y Pwyllgor Gwaith y dylai proses gaffael ffurfiol i benodi contractwr ar gyfer y contract rheoli gwastraff newydd ddechrau yn unol ag argymhellion 1 i 3 yr adroddiad ond gyda'r newidiadau / ychwanegiadau canlynol -

- **Opsiwn ar gyfer ymestyn** y contract - dylai'r contract redeg am gyfnod cychwynnol o 8 mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn y contract am hyd at uchafswm o 12 mlynedd (gan wneud cyfanswm posibl o 20 mlynedd) yn amodol ar adolygiad cynhwysfawr ar ôl 6 mlynedd.
- **Pwerau i'w dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)** - y pwerau hyn i'w dirprwyo yn unol ag argymhelliad 2 yr adroddiad mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio a,
- **Opsiynau prisio i'w cynnwys yn y ddogfennaeth gwybodaeth tendro** yn unol ag argymhelliad 3 yr adroddiad - dylai'r rhain hefyd gynnwys cais i fidwyr ddarparu prisiau tendro yn seiliedig ar dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac ar dalu'r Cyflog Byw Go Iawn.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion 1 i 3 yr adroddiad mewn perthynas â chychwyn proses gaffael ffurfiol (fel y'i disgrifir yn Atodiad 3) i benodi contractwr i ymgymryd â'r Contract Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd o 5 Ebrill 2021, yn ddarostyngedig i welliannau a wnaed yn y cyfarfod mewn perthynas â'r canlynol –**

- **Opsiwn i ymestyn y contract – am gyfnod cychwynnol o 8 mlynedd gyda'r opsiwn o ymestyn y cyfnod am hyd at 12 mlynedd (gan wneud cyfanswm posib o 20 mlynedd) yn amodol ar gynnal adolygiad cynhwysfawr ar ôl 6 mlynedd.**
- **Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fydd yn cael eu hymarfer mewn ymgynghoriad â'r Deilodd Portffolio, ac**
- **Bod yr opsiynau prisio i'w cynnwys yn y dogfennau gwybodaeth tendr yn cynnwys, yn ychwanegol, cais i'r sawl sy'n gwneud bid i ddarparu prisiau tendr yn seiliedig ar dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Real.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)<br>Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)<br>Liz Fletcher (BIPBC)<br>Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion)<br>Dawn Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Llyr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant)<br>Keith Walters (Arweinydd Ymarfer – Tîm Lleoli Plant)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Llinos Edwards (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Sioned Owen (TGP Cymru) (ar gyfer eitem 4)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 10 RHAGFYR, 2018**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

**3 MATERION YN CODI**

- **Voices From Care Cymru**

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am argaeledd unrhyw arian enillion trosedd er mwyn helpu i ariannu'r prosiect Voices from Care Cymru er mwyn sefydlu grŵp cyfranogiad misol ar gyfer plant â phrofiad o ofal a phobl ifanc i helpu i gyd-gynhyrchu Strategaeth Plant sy'n Gadael Gofal Ynys Mon ond ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yma.

**Cytunwyd y dylai'r Rheolwr Gwasanaethau Plant ddilyn i fyny yr ymholiad cychwynnol gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

- **Llwyth Gwaith Gweithwyr Cymdeithasol y Gwasanaeth Plant**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant gyflwyniad PowerPoint ar lwyth gwaith y Gweithwyr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Roedd y mater wedi codi yn dilyn sylw a wnaed gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol, mewn adroddiad i banel blaenorol y Panel, eu bod wedi cael yr argraff gan ymarferwyr bod anghysondebau yn safon yr ymarfer i'w briodoli i lwythi gwaith.

Tynnodd y cyflwyniad sylw at y ffaith, fel ar 24 Mai, 2019 fod llwyth achosion bob Gweithiwr Cymdeithasol o fewn y Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys sy'n gweithio â phlant sy'n derbyn gofal yn 25 o blant gyda'r Gweithwyr Cymdeithasol profiadol â llwythi achosion uwch na'r rhai hynny â llai o brofiad. Mae model ymarfer y Gwasanaeth yn golygu bod gan Arweinwyr y Timau ymarfer lwythi achosion is er mwyn iddynt allu treulio amser yn darparu cymorth ac yn goruchwylio'r grwpiau bach o staff maent yn eu harwain. Mae'r llwythi achosion yn rhai generig o ran natur sy'n golygu nad ydynt wedi eu cyfryngu i arbenigedd penodol ond eu bod yn pontio achosion sy'n cynnwys amrywiaeth o faterion gan gynnwys gofal a chymorth, gwarchod plant a phlant mewn gofal. Gall achosion fod yn rhai sy'n amrywio o ran cymhlethdod gan ddibynnu ar anghenion penodol yr unigolyn a/neu'r teulu sydd hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach i asesu'r llwythi achosion. Fel yr oedd hi wythnos diwethaf, roedd 87 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant; 163 o blant mewn gofal ynghyd ag 20 o deuluoedd sy'n destun gweithdrefnau yn y llys o ganlyniad i amrywiaeth o faterion yn cynnwys esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, honiadau o gamdriniaeth ac ati; mae'r rhain yn hynod heriol oherwydd yr angen i gydymffurfio â disgwyliadau ac amserlenni'r llys.

Cafodd y prif faterion canlynol ei codi a'u nodi gan y Panel yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- Bod yr ymchwil a wnaed yn amhendant o ran maint delfrydol y llwyth achosion a bod y nifer achosion yn amrywio o ran nifer a chymhlethdod o awdurdod i awdurdod a rhwng timau o fewn gwasanaethau.
- Nad yw'r data yn y cyflwyniad yn adlewyrchu'r achosion sydd ar fin eu cau, eu uwchgyfeirio neu eu hisraddio.
- Er nad oedd unrhyw ffigyrau meincnodi llwythi achosion ar gael er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gymharu ei hun ag awdurdodau eraill o ran yr hyn y gellir ei reoli, mae ymholiadau anffurfiol gydag awdurdodau cyfagos yn y cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth yn dynodi fod y niferoedd yn debyg ac nad yw llwythi achosion uwch o reidrwydd yn golygu lefel is o berfformiad e.e. mae gan rai awdurdodau yn Lloegr gyfartaledd o 27 neu fwy o lwythi achosion ac wedi derbyn adroddiadau da gan Ofsted. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio cynnal llwythi achosion ar lefel o rhwng 18 a 25.
- Wrth asesu'r llwythi achosion bod profiad y staff sydd â'r llwyth achosion yr un mor bwysig â nifer yr achosion h.y. ni fyddai disgwyl i weithiwr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso fod â llwyth achosion uchel a bod pwysau'r llwyth achosion h.y. faint o waith y mae'r achos yn debygol o greu hefyd yn cael ei gymryd i ystyriaeth.
- Nad oes unrhyw achosion nad ydynt yn cael eu dyrannu i Weithiwr Cymdeithasol.
- Bod trosiant Gweithwyr Cymdeithasol Plant yn fater hir sefydlog yn genedlaethol o fewn y proffesiwn oherwydd natur heriol y gwaith gyda llwyth achosion yn ffactor. Cydnabyddir bod sefydlogrwydd y gweithlu yn allweddol er mwyn darparu parhad gofal ac er mwyn ffurfio perthnasau da gyda phlant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd ac o'r herwydd, mae'n flaenoriaeth.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ymhellach fod y broses ar gyfer cau a throsglwyddo achosion rhwng timau o fewn y Gwasanaeth sydd angen



DRAFT

Cynlluniau Gofal a dogfennau LAC cysylltiedig yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen. Yn ogystal, o ran pwysau llwyth gwaith, gall Gweithwyr Cymdeithasol drafod eu llwyth gwaith gyda'u Harweinwyr Ymarfer y mae modd cael mynediad hawdd iddynt ac sydd o fewn cyrraedd; fe ddylai materion llwyth gwaith gael eu codi yn y lle cyntaf gyda'r Arweinwyr Ymarfer ar sail achos wrth achos.

**CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd am lwyth gwaith y Gweithwyr Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant ac ni chafodd unrhyw gamau pellach eu hargymell.**

## 4 TROS GYNNAL PLANT CYMRU (TGP CYMRU)

Cyflwynodd Sioned Owen, TGP Cymru y prif bwyntiau a oedd yn codi o'r ddogfennaeth TGP Cymru a oedd yn cynnwys adroddiad Chwarter 4 2018/19 mewn perthynas ag Ynys Môn; adroddiad blynyddol 2018/19 ar gyfer Ynys Môn ynghyd â'r adroddiad Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018/19 a ddarparodd ddadansoddiad o'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth ar gyfer y cyfnod o dan sylw ac fe amlygwyd y canlynol –

- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc ar Ynys Môn a gafodd fynediad i'r gwasanaeth yn ystod 2018/19 a gafodd ei weld hefyd ar lefel ranbarthol gan gyflwyno cyfanswm o 109 o faterion a oedd yn gynnydd o gymharu â'r 63 o faterion a gafwyd y llynedd, sy'n ganlyniad positif.
- Mae atgyfeiriadau wedi dod o dair prif ffynhonnell gyda'r mwyafrif yn hunan-gyfeiriadau gyda chyfeiriadau hefyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a rhieni a gofalwyr. Byddai'n dda gweld atgyfeiriadau o ffynonellau eraill ynghyd â gan ysgolion a gofalwyr maeth yn enwedig oherwydd gallant ddynodi angen i godi ymwybyddiaeth bellach yn y meysydd hyn am eiriolaeth er mwyn gwella'r amrywiaeth o ffynonellau atgyfeirio. Er hyn, dangosodd y materion a gyflwynwyd fod amrywiaeth eang o faterion yn cael sylw.
- Unwaith eto, cefnogaeth mewn cyfarfodydd oedd y mater fwyaf cyffredin y mae pobl ifanc yn Ynys Môn yn sôn amdano wrth TGP Cymru a gwelir fod hon yn duedd gynyddol ar draws gogledd Cymru.
- Gwnaed cyfanswm o 26 Cynnig Gweithredol yn Ynys Môn yn ystod y flwyddyn gyda 16 yn symud ymlaen i eiriolaeth yn seiliedig ar faterion y gellir ei ystyried fel rhywbeth sy'n dysg i lwyddiant yr hyfforddiant Agwedd Genedlaethol tuag at Eiriolaeth Statudol (NASA) a roddwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gweithredol.
- Mae TGP wedi trefnu i ddarparu cyflwyniad ar y gwasanaeth eiriolaeth i'r holl dimau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ynys Môn.

Wrth ystyried yr adroddiad, croesawodd y Panel y cynnydd yn y defnydd o eiriolaeth gan bobl ifanc ar Ynys Môn gan nodi, o'r ddau achos enghreifftiol a ddarparwyd yn yr adroddiadau, sut y gall eiriolaeth roi llais i ddymuniadau a theimladau plant sy'n derbyn gofal a helpu i sicrhau canlyniadau priodol ar gyfer y plant perthnasol. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth gofalwyr maeth am argaeledd y gwasanaeth eiriolaeth, fe gynigwyd y dylid hefyd eu cynnwys yn y cyflwyniad a gynllunnir gan TGP Cymru i'r tîm Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cytunwyd y dylai'r ddogfennaeth a gyflwynir gan Tros Gynnal Plant gael ei nodi ac ni chafodd unrhyw weithredoedd ychwanegol eu hargymell.**

## 5 ADRODDIADAU GWASAANETH

Darparwyd diweddariadau gan y Gwasanaethau fel y dangosir isod –

DRAFT

- Fe wnaeth adroddiad y **Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal** dynnu sylw at y perfformiad llawer gwell yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad dros Chwarteri 2, 3 a 4 2018/19 yn enwedig o ran paratoi a chyflwyno'r Cynlluniau Addysg Bersonol gan yr ysgolion o fewn yr amserlen a lleihau newid ysgolion ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Nodwyd bod llwyth gwaith presennol y Swyddog yn cynnwys 118 o blant rhwng 3 ac 18 oed a 43 o sefydliadau addysgol gwahanol.

  Mewn ymateb i gwestiynau gan y Panel fe gadarnhaodd y Swyddog ymhellach –

  - Bod ystyriaeth wedi'i roi i drafnidiaeth ysgol gan gynnwys rhannu cludiant ynghyd â thalu am drafnidiaeth i'r ysgol mewn achosion lle mae'r lleoliad yn un tymor byr a bod hyn wedi bod yn ffactor er mwyn galluogi plant sy'n derbyn gofal i aros yn eu hysgolion.
  - Bod rhaglen a gynhelir gan Canine Assisted Learning lle roedd ci therapi yn ymweld ag ysgolion wedi cael effaith yn ystod ymweliad ag Ysgol Pencarnisiog lle cafodd rhyngweithio â'r ci therapi (Teal) effaith gadarnhaol uniongyrchol ar agwedd rhai plant.
  - Y byddai cynhadledd undydd ar y pwnc o Hysbysu Ysgolion am Drawma yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf mewn cydweithrediad â GwE gyda gwahoddiad i fynychu wedi'i ymestyn i'r holl ysgolion. Mae hyn yn dilyn anhawster i weithredu trosglwyddiad drwy drefniant oherwydd yr amser a gymerwyd i adnabod ysgol addas a oedd yn gallu bodloni anghenion un plentyn yr oedd ei ymddygiad wedi datblygu i fod yn heriol. Yn ogystal, bwriedir ymestyn Boxall (adnodd ar gyfer asesu datblygiad emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad plant a phobl ifanc) i holl ysgolion yr Ynys gyda 20 o ysgolion yn dod yn ysgolion 'meithrin' sydd yn gallu delio â gofynion emosiynol plant sy'n derbyn gofal, y nod yw gallu darparu ysgolion â'r teclynnau i allu derbyn a lletya plant sy'n derbyn gofal.
  - Bod llyfryn newydd i ysgolion – Ysgolion Cyfeillgar: Plant sy'n Derbyn Gofal – wedi ei lansio gan Gynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr ym mis Ebrill ac wedi ei rhannu ag ysgolion Ynys Môn. Mae'r llyfryn yn darparu cyflwyniad rhagorol i ysgolion a allai fod â phlant mewn gofal yn eu hysgolion am y tro cyntaf ac a allai fod yn anghyfarwydd â'r broses plant mewn gofal.
  - Nodwyd fod newidiadau staffio yn anorfod a bod y Gwasanaeth yn ymdrechu, lle bynnag bo hynny'n bosibl, i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael Gweithwyr Cymdeithasol parhaol yn hytrach na Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth.

**Cytunwyd nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac ni chafodd unrhyw argymhellion pellach eu hargymell.**

- Roedd yr adroddiad **Iechyd Plant Mewn Gofal** yn tynnu sylw at ddiffyg o ran nifer yr asesiadau iechyd plant a gynhaliwyd o fewn yr amserlen er y pwysleisiwyd fod yr holl asesiadau iechyd yn cael eu cynnal a bod gwelliannau sylweddol yn amseroldeb hysbysiadau lleoliadau a wnaed mewn perthynas â phlant a leolir yn Ynys Môn gan Awdurdodau eraill a phlant a leolir yn all sirol gan Ynys Môn.

  Mewn ymateb i gwestiynau gan y Panel fe gadarnhaodd y Nyrs LAC a Swyddogion ymhellach -

  - Bod asesiadau iechyd yn hanfodol gan eu bod yn darparu darlun llawn o iechyd y plentyn sy'n derbyn gofal y mae'r Cynllun Iechyd yn seiliedig arno sydd wedyn yn cael ei gyflwyno i adolygiad LAC cyntaf cynllun gofal y plentyn.

- Bod peth oedi wedi digwydd a sgil-effaith ar gwblhau asesiadau o fewn amserlenni o ganlyniad i'r ffaith nad oedd pediatryddon cymunedol ar gael ar gyfer cynnal yr asesiadau iechyd. Mae rhai awdurdodau yn gweithredu model gwahanol lle mae Nyrs Ymarferwyr yn cynnal asesiadau iechyd ac ond yn anfon yr asesiadau perthnasol ymlaen at sylw'r pediatrydd ond mae'r model hwn yn ddibynnol ar gapasiti nyrsys.
- Y cafwyd rhai problemau ymarfer o ran trosglwyddo pobl ifanc sy'n derbyn gofal i'r gwasanaethau oedolion ac sy'n disgyn rhwng gwasanaethau oherwydd eu hanableddau dysgu. Mae trafodaethau cychwynnol gyda'r timau/swyddogion perthnasol wedi eu cynnal. Yn ogystal, mae protocol yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Gwasanaethau Oedolion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc â materion iechyd meddwl sy'n agosáu at fod yn trosglwyddo i Wasanaethau Oedolion ond nad ydynt eto yn bodloni'r trothwy ar gyfer Gwasanaethau Oedolion fel y gellir datblygu eu hachosion.

**Cytunwyd nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn adroddiad y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal ac ni chafodd unrhyw weithredoedd pellach eu hargymell.**

- **Adroddiad y Tîm Lleoli Plant** (Chwarteri 1 a 2 2018/19) a amlygodd ostyngiad yn y defnydd o ofalwyr maeth preifat a chynnydd yn y defnydd o ofalwyr maeth mewnol yn ystod y cyfnod a oedd yn galonogol iawn a bod y Gwasanaeth hefyd wedi gallu cadw mwy o blant o fewn eu teuluoedd. Darparodd yr adroddiad hefyd ddiweddariad ar sefyllfa staff y Tîm Lleoli Plant, y cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd a'r cyraeddiadau a'r arfer dda a gafodd ei adnabod.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Panel cadarnhaodd yr Arweinydd Ymarfer, Tîm Lleoli Plant a'r Swyddogion -

- Bod y Cynnig Maethu Newydd sy'n seiliedig ar becyn ehangach o fuddion ar gyfer Gofalwyr Maeth wedi'i gyflwyno fel rhan o raglen recriwtio a chadw gofalwyr maeth yr Awdurdod a hynny fel cydnabyddiaeth o'r gwaith hanfodol y mae Gofalwyr Maeth presennol yn ei wneud drwy'r dydd, bob dydd a hefyd fel ffordd o geisio denu Gofalwyr Maeth newydd. Mae'r data fel yn adran 2 o'r adroddiad yn dangos cynnydd yn nifer y ceisiadau ac yn nifer yr asesiadau sydd wedi dechrau yn dilyn lansiad y Cynnig Newydd a ragwelir fydd yn creu nifer ychwanegol o wlâu ar gyfer lleoliadau maethu.
- Bod y mathau eraill o gefnogaeth – Grŵp Cefnogi Ffrindiau a Theulu, sesiynau Coffi a Chacen ynghyd â'r Fforwm Maethu fwy ffurfiol i gyd yn allweddol er mwyn creu a chynnal perthynas waith gefnogol gyda Gofalwyr Maeth yr Awdurdod.
- Bod gweithredoedd a gynllunnir ar gyfer y dyfodol yn cynnwys bod yn "barod am archwiliad"; datblygiad parhaus polisïau a strategaethau a pharhau i hyrwyddo'r Cynnig Maethu newydd a chynyddu nifer y Gofalwyr Maeth sydd wedi eu cofrestru â'r Awdurdod.

Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y Panel yn falch o nodi mai'r neges gan y Gofalwyr Maeth yw eu bod nhw'n gwerthfawrogi'r Cynnig Maethu Newydd a'i fod yn gwneud gwahaniaeth iddynt ac roeddent yn awyddus i bwysleisio fod y berthynas rhwng yr Awdurdod a'i Ofalwyr Maeth yn un o bartneriaeth.

**Cytunwyd nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn adroddiad y Tîm Lleoli Plant ac ni chafodd unrhyw argymhellion pellach eu hargymell.**

## 6 DIWRNOD O HWYL: SEREMONI PLANT MEWN GOFAL, 21 MEDI 2019

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant y cynhelir y Seremoni Plant Mewn Gofal (a gynhelir bob yn ail blwyddyn) ar ffurf Diwrnod o Hwyl eleni gyda seremoni wobrwyo ar ddiwedd y diwrnod. Cynhelir y diwrnod hwyl ar 21 Medi yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae sesiwn gychwynnol wedi'i chynnal gyda phlant mewn gofal er mwyn meddwl am syniadau ar gyfer y diwrnod. Bydd croeso cynnes i Aelodau'r Panel Rhiantu Corfforaethol fynychu.

## 7 CYFARFOD NESAF

Nodwyd bod cyfarfod nesaf y Panel Rhiantu Corfforaethol wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 9 Medi, 2019 am 2pm. **Gofynnwyd, ac fe gytunwyd i ail drefnu amser y cyfarfod i'w gynnal yn gynharach yn y diwrnod er mwyn hwyluso pethau ar gyfer yr aelodau hynny o'r panel oedd ag ymrwymiadau yn y prynhawn.**

**Dr Gwynne Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Gorffennaf 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Awst 2019 – Mawrth 2020;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Awst 2019 – Mawrth 2020. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Awst 2019 - Mawrth 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Medi 2019** | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 2 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19)**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 – i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | Dyddiad i'w gadarnhau |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

Tudalen 21

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 7 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 8 | **Adolygiad Rheoli Trysorlys 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgysylltu. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>w/c 9 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 10 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>22 Awst 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| | | | | **Hydref 2019** | | | |
| 11 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 12 | **Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol)**<br><br>Cymeradwyaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 23

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Adroddiad Monitro Blynyddol - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| | | | | **Tachwedd 2019** | | | |
| 14 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>3 & 5 Medi 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>11 Tachwedd 2019 | |
| | | | | | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 16 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Tachwedd 2019<br>(Dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019<br>(Dyddiad i'w gadarnhau) | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 18 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 19 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| | | | | **Rhagfyr 2019** | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |

*  *Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>18 Tachwedd 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| | | | | **Ionawr 2020** | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |
| | | | | **Chwefror 2020** | | | |
| 23 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2019 – Mawrth 2020

Diweddarwyd 3 Gorffennaf 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| **Mawrth 2020** | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |

Tudalen 27

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **15 GORFFENNAF 2019** |
| **PWNC:** | **CRYNODEB O GYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br><br>01248 751865<br>Claire Klimaszewski@ynysmon.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r drafft o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2018/19 a'r Fantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cronfeydd wrth gefn a'r balansau.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio eto ac y gallant newid o'r herwydd. Cyflwynir adroddiad i'r Cyngor wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau.

Argymhellion:

**1)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2018/19;

**2)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn clustnodedig ac yn cymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4;

**3)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £1.270m fel a nodir yn Nhabl 3 isod;

**4)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion;

**5)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balansau'r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2019.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad yn crynhoi'r prif ddatganiadau ariannol a'r effaith ar gronfeydd wrth gefn.
- Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2018/19.
- Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019.
- Atodiad 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2018/19.
- Atodiad 5 – Balansau Ysgolion fesul Ysgol.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Mehefin 2019 ar alldro Cyllideb Refeniw 2018/19;
- 18 Chwefror 2019 – Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau.

## 1. PWRPAS

Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Cyflwynir hefyd grynodeb o'r holl gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor i'w cymeradwyo.

## 2. CEFNDIR

Yn hanesyddol, bu'n rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r gyfraith, gynhyrchu set ddrafft o gyfrifon a rhaid i'r Swyddog Adran 151 eu llofnodi erbyn y 30 Mehefin canlynol. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018 wedi dwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer cwblhau a llofnodi'r cyfrifon drafft i 15 Mehefin ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20. Yn unol â'r gyfraith eto, bydd yr amserlen yn lleihau ar gyfer cyfrifon 2020/21 a'r blynyddoedd dilynol pan fydd angen llofnodi'r Datganiad Cyfrifon drafft erbyn 31 Mai bob blwyddyn. Mae'r cyfrifon drafft ar gyfer 2018/19 wedi cael eu cwblhau a bydd yr archwilwyr allanol, Deloitte LLP, yn cychwyn ar y gwaith o'u harchwilio ar ddydd Llun 1 Gorffennaf 2019. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn dwyn ymlaen y dyddiad ar gyfer y cyfrifon archwiliedig terfynol o 30 Medi i 15 Medi yn achos cyfrifon 2018/19 a 2019/20. Bydd angen cwblhau a llofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 31 Gorffennaf 2021 yn achos y Datganiad Cyfrifon mewn perthynas â 2020/21 ymlaen.

**2.1** Cyflwynir y Datganiad Cyfrifon drafft, llawn ar gyfer 2018/19 i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Gorffennaf 2019. Cyflwynir y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio i'r Pwyllgor Archwilio, a'r Cyngor llawn ym mis Medi 2019.

**2.2** Caiff y prif ddatganiadau ariannol drafft: y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2018/19; a'r Fantolen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 eu cyflwyno isod.

## 3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT AR GYFER 2018/19

**3.1** Caiff y drafft o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer 2018/19 ei gyflwyno yn Atodiad 2.

**3.2** Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'n cyflwyno costau'r gwasanaethau yn wahanol i'r modd yr adroddwyd arnynt ar gyfer yr alldro ariannol drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Mehefin 2019.

**3.3** Adroddir ar yr alldro ar sail strwythur y sefydliad ac adroddir ar gostau a gyllidir drwy'r Grant Cymorth Refeniw a'r Dreth Gyngor ac ati. Mae'r penawdau gwasanaeth ar y CIES hefyd yn cael eu trefnu yn seiliedig ar strwythur y sefydliad ar lefel Gwasanaeth/Swyddogaeth. Fodd bynnag, mae'r CIES hefyd yn cynnwys addasiadau cyfrifo statudol megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn. Nid yw'r rhain yn cael effaith ar yr alldro canlyniad ac, o'r herwydd, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng yr adroddiad ar yr alldro canlyniad a'r CIES.

**3.4** Mae'r CIES yn dangos mai £132.675m oedd cost net y gwasanaethau gyda'r diffyg o £8.162m ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth yn derbyn na ddylai trethdalwyr orfod cyllido addasiadau megis dibrisiant. O'r herwydd, nid yw cyfrifon yr awdurdod lleol yn cynnwys effaith y rhain yn y nodyn Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido dan y Rheoliadau (nodyn 7 yn Natganiad Cyfrifon yr Awdurdod). Mae'r nodyn hwn ar gyfer 2018/19 yn dangos gwerth £8.937m o addasiadau cyfrifo sydd wedi cael eu canslo allan yn y Datganiad ar Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn (MIRS). Mae hyn yn golygu fod gwir effaith darparu gwasanaethau ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r CRT yn gostwng o ddiffyg o £8.162m ar ddarparu gwasanaethau i warged o £0.775m, sy'n gynnydd yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor. Mae hyn oherwydd tanwariant yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) sy'n cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig y sonnir amdanynt isod.

**3.5** Yn ychwanegol at hyn, mae diffyg o £12.582m ar incwm a gwariant cynhwysfawr arall o addasiadau cyfrifo sy'n gysylltiedig ag ailbrisio asedau anghyfredol megis Tir ac Adeiladau ac ail-fesur yr Ymrwymiad Pensiwn. Mae cyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr ar y CIES yn warged o £20.744m ar wasanaethau. Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf ag addasiadau cyfrifo yn hytrach na gwir gost y gwasanaethau.

**3.6** Yn yr Adroddiad ar Fonitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 4 2018/19 a gyflwynwyd ar 17 Mehefin 2019, dygwyd sylw at orwariant rhagamcanedig o £0.633m mewn perthynas â Chronfa'r Cyngor (tudalen 1 yr adroddiad). Mae'r datganiad cyfrifon hefyd yn dwyn sylw at y ffaith bod y gorwariant ar Gronfa'r Cyngor yn £0.633m ar gychwyn y cyfnod archwilio. Fodd bynnag, gall hyn newid os bydd yr archwilwyr yn argymell unrhyw addasiadau pellach ar ôl yr archwiliad. Bydd Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn gostwng gan y swm hwn o gymharu â pherfformiad y Cyngor yn 2018/19.

Mae Tabl 1 isod yn dangos y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac roedd balans yr holl gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2019 yn £24.844m, cynnydd o £775k (3.2%). Dylid nodi bod Cronfa Wrth Gefn y CRT, Balansau'r Ysgolion a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf yn gronfeydd wedi eu hamgau na fedrir ond eu defnyddio i'w pwrpas penodedig.

**Tabl 1 - Symudiadau o Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor yn 2018/19**

| Crynodeb o'r Symudiadau ym Malansau/Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn 2018/19 | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Cyngor | Cronfa Wrth Gefn Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn mae modd ei ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eitemau sy'n effeithio ar Gronfa Wrth Gefn y Cyngor 2018/19 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans Agoriadol 1 Ebrill 2018** | **(6,899)** | **(7,601)** | **(7,380)** | **(1,869)** | **(320)** | **(24,069)** |
| Gor/(Tan)wariant Net 2018/19 | 633 | - | (805) | - | - | (172) |
| **Balans y Cyngor ar ôl y gorwariant** | **(6,266)** | **(7,601)** | **(8,185)** | **(1,869)** | **(320)** | **(24,241)** |
| Trosglwyddiadau Net o/(i) Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid a gymeradwywyd | 354 | (1,127) | (202) | 1,238 | (866) | (603) |
| **Balans y Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2019** | **(5,912)** | **(8,728)** | **(8,387)** | **(631)** | **(1,186)** | **(24,844)** |

**3.7** Mae Tabl 1 uchod yn grynodeb o'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn oherwydd y perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn a'r symudiadau net i /o'r cronfeydd wrth gefn. Mae Tabl 2 isod yn crynhoi'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r Datganiad Cyfrifon. Mae hon yn ffordd wahanol o gyflwyno'r wybodaeth ond mae tablau 1 a 2 yn arwain at yr un balansau yn y cronfeydd wrth gefn.

**Tabl 2**

| Dadansoddiad o'r Symudiad yng Nghronfa'r Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn y CRT yn 2018/19 | Cronfa'r Cyngor £m | CRT £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Y gronfa wrth gefn agoriadol ar 1 Ebrill 2018** | **(6.899)** | **(7.380)** | **(14.279)** |
| Y diffyg net ar ddarparu gwasanaethau (Datganiad Cyfrifon (DC) tudalen 18) | 7.258 | 0.904 | 8.162 |
| Addasiadau cyfrifo statudol a gafodd eu canslo allan yn yr MIRS (DC tudelannau 19, 20 a 31) | (6.160) | (1.911) | (8.071) |
| Balans net cyn trosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido costau clustnodedig y gwasanaethau | (5.801) | (8.387) | (14.188) |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefnog clustnodedig i gylido costau clustnodedig o fewn costau'r gwasanaethau (ac eithrio symudiadau rhwng y gronfa wrth gefn gyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a nodir uchod) (DC tudalen 20) | (0.111) | - | (0.111) |
| **Balans Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2019** | **(5.912)** | **(8.387)** | **(14.299)** |
| Y balansau gweddilliol yn y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau'r ysgolion (DC tudalen 20) | (10.545) | - | (10.545) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy sydd ar gael i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2019** | **(16.457)** | **(8.387)** | **(24.844)** |

**3.9** Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2018, cafodd isafswm y balans a argymhellir ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ei osod ar £6.76m. Roedd y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar 31 Mawrth 2019 yn £5.912m sydd yn is na'r ffigwr hwn ond yn ychwanegol at hyn, mae gwerth £8.728m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig sy'n gysylltiedig â Chronfa'r Cyngor. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr eitemau a nodwyd wedi cyhoeddi'r datganiad cyfrifon drafft.

Oherwydd yr anawsterau ariannol cyfredol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, gyda chyllidebau'n lleihau a phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau, mae'n bwysig sicrhau bod lefel Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn cael ei chynnal ar neu o gwmpas y lefel isaf a argymhellir. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl ac y gall gyllido unrhyw orwariant yn y dyfodol. Dros y blynyddoedd, mae'r cyllidebau hynny nad oedd defnydd llawn yn cael ei wneud ohonynt wedi cael eu dileu ac mae risg gynyddol y bydd gwasanaethau'n gorwario ar eu cyllidebau, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n cael eu arwain gan y galw. Mae sicrhau bod y Cyngor yn cynnal lefel iach o Gronfeydd Wrth Gefn yn lliniaru effaith y risg honno.

## 4. MANTOLEN DDRAFFT FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2019

**4.1** Mae Atodiad 3 yn cyflwyno mantolen ddrafft y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019.

**4.2** Fe ostyngodd asedau net y Cyngor o £183.20m ar 31 Mawrth 2018 i £162.46m ar 31 Mawrth 2019. Cafodd cynnydd yng ngwerth asedau anghyfredol a chyfredol eu gwrthbwyso gan gynnydd yn y benthyciadau tymor hir a chynnydd yn y diffyg o ran pensiwn.

**4.3** Roedd y cynnydd o ran benthyciadau tymor hir yn cyd-fynd â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ac yn adlewyrchu'r angen i ail-lenwi balansau arian parod y Cyngor drwy droi benthyciadau mewnol yn fenthyciadau allanol. Mae'r diffyg yn y gronfa bensiwn yn fesur o un cyfnod mewn amser ac mae'n seiliedig ar nifer o ffactorau a rhagdybiaethau actiwaraidd. Bydd y prisiad o Gronfa Bensiwn y Cyngor a gynhelir pob tair blynedd yn digwydd yn ystod 2019 a bydd yn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o'r diffyg.

## 5. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

**5.1** Mae Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn rhan hanfodol o'r modd y caiff y Cyngor ei gyllido ac yn sicrhau bod cyllid penodol yn cael ei ddyrannu i gwrdd ag ymrwymiadau y gwyddys amdanynt neu rai a all godi yn y dyfodol, i gyllido prosiectau ar gyfer y tymor hwy sy'n parhau am fwy nag un blwyddyn ariannol ac er mwyn dal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario rhag ofn iddynt gael eu crafangu'n ôl rhywbryd yn y dyfodol. Dangosir y symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn Nhabl 3 isod.

**<u>Tabl 3 – Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2018/19</u>**

| | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig ag eithrio y Gronfa Wrth Gefn Diffyg Pensiwn) £'m | Cronfa Wrth Gefn Diffyg Pensiwn £'m | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £'m |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | 9.911 | (2.310) | 7.601 |
| | | | |
| Symudiadau yn ystod y Flwyddyn | | | |
| Trosglwyddiadau i mewn o'r Balansau Cyffredinol | 0.441 | - | 0.441 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Newydd Arfaethedig a Grëwyd yn ystod y Flwyddyn (gweler Tabl 4 isod) | 1.270 | - | 1.270 |
| Trosglwyddiadau i mewn i'r Cronfeydd Wrth Gefn Presennol o Refeniw | 0.979 | - | 0.979 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a ddefnyddiwyd yn ystod y Flwyddyn | (2.490) | 1.155 | (1.335) |
| Cronfeydd Wrth Gefn nad oes mwyach eu hangen a drosglwyddwyd nôl i'r Balansau Cyffredinol | (0.228) | - | (0.228) |
| | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **9.883** | **(1.155)** | **8.728** |

**<u>Tabl 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clusnodedig Newydd Arfaethedig</u>**

| Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2018 £ | Symudiadau rhwng y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £ | Symudiad i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £ | Symudiad o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £ | Balans ar 31 Mawrth 2019 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Wrth Gefn Glustnodedig ar gyfer Morgeisi Gofalwyr Maeth | - | - | (65,650) | - | (65,650) |
| Y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim | - | - | (60,000) | - | (60,000) |
| Cronfa Wrth Gefn Cyllido ar y Cyd | - | - | (180,705) | - | (180,705) |
| Hamdden (Hawliad TAW) | - | - | (800,000) | 27,367 | (772,633) |
| Prosiect Medrusrwydd a Chapasiti Cynllunio | - | - | (75,000) | - | (75,000) |
| Dyfarniad y Goruchaf Lys – Gofal Nyrsio | - | - | (53,129) | - | (53,129) |
| Prosiect TRAC | - | - | (36,000) | - | (36,000) |
| | - | - | (1,270,484) | 27,367 | (1,243,117) |

**5.2.2** Ceir diweddariad manwl ar y cronfeydd wrth gefn yn Atodiad 4.

## 6. BALANSAU YSGOLION

**6.1** Yn Nhabl 4, ceir crynodeb o falansau'r ysgolion a oedd yn £0.631m ar 31 Mawrth 2019 (£1.869m ar 31 Mawrth 2018). Roedd gan 12 o'r 43 ysgol gynradd ddiffyg yn eu balansau (3 ysgol gynradd ar 31 Mawrth 2018) ac roedd 3 o'r ysgolion uwchradd (1 ar 31 Mawrth 2018) mewn diffyg. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd gan yr Ysgol Arbennig warged o £0.156m, fodd bynnag, erbyn diwedd y flwyddyn roedd gan yr ysgol ddiffyg o £0.060m. Gweler y rhestr gyflawn o falansau'r ysgolion yn Atodiad 4.

**Tabl 5**

| Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2018 £'000 | Symudiad i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £'000 | Symudiad o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | (1,380) | (1,104) | 1,534 | (950) |
| Ysgolion Uwchradd | (410) | (562) | 1,231 | 259 |
| Ysgolion Arbennig | (79) | - | 139 | 60 |
| | **(1,869)** | **(1,666)** | **2,904** | **(631)** |

Mae lefel balansau ysgolion wedi gostwng o £2.46m yn 2015/16 pan oeddynt ar eu huchaf i £0.63m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, gostyngiad o 74% mewn 4 blynedd ac mae'n adlewyrchu'r anawsterau ariannol sy'n wynebu'r mwyafrif o ysgolion y Cyngor. Mae ysgolion yn bwriadu defnyddio dros hanner y cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn 2019/20.

## 7. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

**7.1** Roedd balans agoriadol y CRT ar 1 Ebrill 2018 yn £7.380m. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd tanwariant o £0.805m oherwydd prosiectau cyfalaf a oedd wedi llithro. Yn ychwanegol at hyn, trosglwyddwyd £0.202m o gronfeydd wrth gefn gan arwain at falans ar ddiwedd y flwyddyn o £8.357m. Bydd y balans hwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y CRT yn y dyfodol.

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2018/19

| 2018/19 | | | | Nodyn | 2017/18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | Gwasanaethau | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 70,793 | (14,660) | 56,133 | Dysgu Gydol Oes | | 82,552 | (14,508) | 68,044 |
| 37,503 | (8,952) | 28,551 | Gwasanaethau Oedolion | | 34,329 | (10,505) | 23,824 |
| 11,876 | (1,199) | 10,677 | Gwasanaethau Plant | | 10,388 | (710) | 9,678 |
| 4,949 | (3,966) | 983 | Tai | | 4,647 | (3,768) | 879 |
| 24,934 | (5,570) | 19,364 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 29,430 | (8,404) | 21,026 |
| 12,694 | (7,272) | 5,422 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | 12,529 | (5,950) | 6,579 |
| 5,548 | (226) | 5,322 | Trawsnewid | | 7,432 | (209) | 7,223 |
| 28,187 | (19,454) | 8,733 | Adnoddau | | 28,097 | (19,815) | 8,282 |
| 1,790 | (253) | 1,537 | Busnes y Cyngor | | 2,182 | (353) | 1,829 |
| 2,148 | (1,144) | 1,004 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,541 | (707) | 1,834 |
| 579 | - | 579 | Rheolaeth Corfforaethol | | 596 | (9) | 587 |
| 134 | - | 134 | Costau heb eu ddosbarthu | | 3,724 | - | 3,724 |
| 12,079 | (17,843) | (5,764) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 10,841 | (16,778) | (5,937) |
| **213,214** | **(80,539)** | **132,675** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **229,288** | **(81,716)** | **147,572** |
| | | 22,129 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 23,148 |
| | | 10,405 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 13a | | | 8,628 |
| | | (157,047) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (146,749) |
| | | **8,162** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **32,599** |
| | | (6,152) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c, 15 & 17 | | | (41,122) |
| | | 18,734 | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | (9,858) |
| | | **12,582** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(50,980)** |
| | | | | | | | |
| | | **20,744** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(18,381)** |

## MANTOLEN DDRAFFT AR 31 MAWRTH 2019

| | Nodyn | 31 Mawrth 2019<br>£'000 | 31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 15 | 396,452 | 386,886 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 3,676 | 3,645 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 6,000 | 5,791 |
| Asedau Anniriaethol | 19 | 701 | 756 |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | 44 | - | 1 |
| Dyledwyr tymor hir | 24 | 266 | 608 |
| **Asedau tymor hir** | | **407,095** | **397,687** |
| | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 44 | - | 5 |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 1,557 | 2,442 |
| Rhestrau stoc | 23 | 301 | 385 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 29,653 | 24,031 |
| Arian a chywerthoedd arian | 25 | 15,825 | 7,789 |
| **Asedau Cyfredol** | | **47,336** | **34,652** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 44 | (7,535) | (12,413) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (18,151) | (18,251) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (429) | (695) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (2,815) | (3,897) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(28,930)** | **(35,256)** |
| | | | |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (157) | (151) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (4,805) | (4,631) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (127,352) | (106,913) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 41 | (130,731) | (102,188) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(263,045)** | **(213,883)** |
| | | | |
| **Asedau net** | | **162,456** | **183,200** |
| | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 24,844 | 24,069 |
| Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio | 11 | 137,612 | 159,131 |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **162,456** | **183,200** |

**ATODIAD 4**

| Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2018<br>£ | Symudiadau rhwng y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig<br>£ | Symudiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig<br>£ | Symudiadau o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig<br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2019<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai Fforddiadwy | (99,000) | - | (151,643) | - | (250,643) |
| Rhesymoli Rheoli Asedau | (42,656) | - | - | 42,656 | - |
| Model Darogan Safon Dŵr Ymdrochi | (10,000) | - | - | - | (10,000) |
| Pier Biwmares - Paentio | (74,968) | - | (25,032) | - | (100,000) |
| Isadeiledd Arosfannau Bws | (133,475) | - | - | 79,083 | (54,392) |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Prynwch Hefo Hyder | (3,878) | - | (2,356) | - | (6,234) |
| Cyllid Corfforaethol – Datblygu systemau CIVICA | (16,486) | - | - | 16,486 | - |
| Pobl Fregus - Corfforaethol | (570,000) | - | - | 294,000 | (276,000) |
| Cost Newid | (343,986) | - | (50,000) | 113,893 | (280,092) |
| Tynnu'r Rovacabins o'u gilydd | (28,000) | - | - | 28,000 | - |
| Cronfa Wrth Gefn Glustnodedig ar gyfer Gofal Cymdeithasol – Grant Datblygu'r Gweithlu | (40,430) | - | - | - | (40,430) |
| Cronfa Wrth Gefn Trothwy Gofal | (121,724) | 121,724 | - | - | - |
| Datblygiad Economaidd – Ynys Ynni | (8,182) | - | (3,797) | - | (11,979) |
| Cronfa Wrth Gefn Tâl Cyfartal | (813,102) | - | - | 449,796 | (363,305) |
| Cronfa Wrth Gefn Glustnodedig ar gyfer Morgeisi Gofalwyr Maeth | - | - | (65,650) | - | (65,650) |
| Prydau Ysgol Am Ddim | - | - | (60,000) | - | (60,000) |
| Grantiau Priffyrdd – Llwybr Arfordirol | (7,575) | - | - | - | (7,575) |
| Grantiau Priffyrdd – Maes Parcio'r Maes Awyr | (2,401) | - | - | 2,401 | - |
| Grant Priffyrdd – Maes Awyr | (86,488) | - | - | 15,608 | (70,880) |
| Grantiau Priffyrdd Cyfyngedig - Llifogydd | (36,473) | - | - | - | (36,473) |
| Darpariaeth Digartrefedd | (88,312) | - | - | 88,312 | - |
| Rheoli Tai | (6,300) | - | - | 6,300 | - |
| Cronfa Wrth Gefn Yswiriant (Trychineb) | (1,250,000) | - | (161,000) | 161,000 | (1,250,000) |
| Buddsoddi i Arbed | (652,349) | 100,242 | - | 150,243 | (401,864) |
| Buddsoddi i Arbed prydau ysgol ar-lein Cronfa Wrth Gefn ar y Cyd rhwng Gwas Cym a Dysgu | (25,542) | - | - | 25,542 | - |
| | - | - | (180,795) | - | (180,795) |
| System Gyfrifiadurol Pridiannau Tir | (8,100) | - | - | - | (8,100) |
| Gwelliannau Landlordiaid/Tenantiaid | (5,000) | - | - | 5,000 | - |
| Hamdden (Hawliad TAW) | - | - | (800,000) | 27,367 | (772,633) |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Trwyddedu | (23,000) | - | - | 6,430 | (16,570) |
| Cynllun Datblygu Lleol | (168,700) | - | - | 1,183 | (167,517) |
| Datblygiadau Mawr | (265,113) | - | (9,358) | 41,963 | (232,508) |
| Datblygiadau Mawr - Cynllunio | (591,689) | - | - | 80,083 | (511,606) |
| Costau Rhedeg Melin Llynnon | - | (42,170) | - | 29,462 | (12,708) |
| Cronfa Prynu Amgueddfeydd | (22,415) | - | (3,324) | 20,000 | (5,739) |
| Cronfa Wrth Gefn Glustnodedig – Pensiwn Negyddol | 2,309,389 | - | (1,154,694) | - | 1,154,694 |

| Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2018<br>£ | Symudiadau rhwng y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig<br>£ | Symudiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig<br>£ | Symudiadau o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig<br>£ | Balans ar 31 Mawrth 2019<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect AD/Cyflogres Northgate | (52,433) | - | - | 52,433 | - |
| Gwaith Trin Gogledd Orllewin Cymru | (1,181,799) | - | - | 26,083 | (1,155,715) |
| Costau Cynllunio a Chyfreithiol | (22,375) | - | - | - | (22,375) |
| Gallu a Chapasiti Cynllunio | - | - | (75,000) | - | (75,000) |
| System Rheoli Polisi | (8,363) | - | - | - | (8,363) |
| Datblygu Prosiect – Parc y Morglawdd | (2,950) | - | - | 2,950 | - |
| Incwm Proses Ailgylchu | (635,130) | - | - | - | (635,130) |
| Adnoddau – TG Refeniw a Budd-daliadau | (42,936) | (56) | - | 8,000 | (34,992) |
| Prosiectau a gyllidir o Gronfeydd Wrth Gefn Gyfyngedig | (38,692) | - | (87,500) | 14,550 | (111,642) |
| Cyfraniadau Refeniw Cyfalaf heb eu defnyddio | (1,137,601) | (124,295) | (68,282) | 218,770 | (1,111,408) |
| Cronfa Wrth Gefn Dyddiau Ysgol | 66,130 | - | (66,130) | - | - |
| Rhesymoli Ysgolion | (21,656) | - | - | 21,656 | - |
| Cronfa Wrth Gefn – Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl | (150,000) | 6,089 | - | 143,911 | - |
| Cynllun Salwch – Ysgolion Cynradd | 26,523 | - | (85,000) | 22,604 | (35,873) |
| Contractau Staff Gofal Cymdeithasol | (144,737) | (268,008) | - | 141,031 | (271,714) |
| Gwario i Arbed – Toiledau Cyhoeddus | (8,906) | - | - | 1,500 | (7,406) |
| Grant Cefnogi Pobl | (759,143) | - | (15,258) | - | (774,401) |
| Dyfarniad y Goruchaf Lys – Gofal Nyrsio | - | - | (53,129) | - | (53,129) |
| TRAC | - | - | (36,000) | - | (36,000) |
| Trawsnewid | (74,459) | (6,089) | - | 46,987 | (33,561) |
| Gwastraff - Ailgylchu | (121,768) | - | (250,000) | 104,292 | (267,476) |
| Cynnal a chadw dros y Gaeaf | (54,480) | - | - | - | (54,480) |
| **Cyfanswm** | (7,600,730) | (212,563) | (3,403,949) | 2,489,576 | (8,727,667) |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **15 GORFFENNAF 2019** |
| **PWNC:** | **CRONFA'R DEGWM** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R. W. WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **Marc Jones**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynllun drafft fel y'i amlinellir yn Atodiad B ac yn dirprwyo y pŵer i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio (Cyllid), i :-

- gwblhau'r trefniadau sy'n angenrheidiol i'r cynllun gael ei gymeradwyo ac i sefydlu'r corff elusennol;
- gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r cynllun drafft gan y Comisiwn Elusennau neu'r cynghorwyr cyfreithiol, er mwyn cwblhau'r broses, ar yr amod nad yw'r newidiadau yn gwrthdaro ag egwyddorion y cynllun drafft. Lle bydd unrhyw newid gofynnol yn newid yr egwyddorion a adlewyrchir yn y cynllun drafft, bydd angen cymeradwyaeth bellach gan y Pwyllgor Gwaith cyn i'r newidiadau i'r cynllun gael eu mabwysiadu.

Unwaith bydd y Comisiwn Elusennau yn cadarnhau cofrestru'r elusen, bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cael cyngor annibynnol arbenigwr ar y ffordd orau i sicrhau bod cymaint o fuddsoddiad â phosibl yn deillio o'r tir a'r cyllid sydd yn y Gronfa.

Yn unol â Deddf Cronfa'r Degwm 1914 a rheoliadau a gyhoeddwyd wedyn, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo cynllun ar gyfer gweinyddu'r gronfa.

Mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl wedi cryfhau eu ffocws ar helpu unigolion i wella eu llesiant trwy sesiynau ffitrwydd a iechyd mewn grŵp sy'n golygu eu bod yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a hamdden ar eu llwybr tuag at wellhad.

Mae yna dal heriau pellach i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn 2019/20 ac ystyriwn ein bod mewn sefyllfa dda i gwrdd â'r heriau hynny.

Yn y Gwasanaethau Plant, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi diogelwch a llesiant plant ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu 3 o gartrefi grŵp bach ar Ynys Môn – Cartrefi Clyd Môn yn 2019/20. Bydd hyn yn fodd i ni gefnogi plant a chanddynt anghenion uchel o fewn eu hardal leol ac nid mewn lleoliadau costus tu allan i'r sir. Rydym hefyd dal yn ymroddedig i barhau i wella'r Gwasanaeth.



DRAFT

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn bwriadu canolbwyntio ar fodel o gefnogaeth ddydd i unigolion sydd ag Anableddau Dysgu mewn ffordd sy'n cwrdd â'u nodau ac yn eu cefnogi i fynd yn eu blaenau. Mewn partneriaeth â'n partneriaid iechyd a'n partneriaid yn y trydydd sector, rydym hefyd yn anelu i sefydlu Timau Adnodd Cymunedol mewn 3 ardal yn Ynys Môn i ddarparu'r gefnogaeth orau i bobl allu aros yn annibynnol, a bydd y gefnogaeth honno yn cael ei darparu gan dimau integredig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff a staff y darparwyr rydym yn eu comisiynu am eu gwaith caled yn 2018/19. Gall gyrfa mewn gofal cymdeithasol fod yn heriol yn aml iawn, a diolchwn iddynt am eu hymroddiad parhaus.

DRAFT



Alwyn Rhys Jones
Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion



Fon Roberts, Dirprwy Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro a Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

## Sut mae Pobl yn siapio ein Gwasanaethau?

Y Rhaglen Welliant yw ffocws ein holl waith – rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn adrodd yn erbyn y pedair egwyddor yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sef llesiant, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac ataliaeth.

Er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwn rydym yn blês gyda'r cynnydd yn 2018-19 mewn sawl maes. Rydym wedi cymryd y cyfle i wneud pethau mewn ffordd wahanol, gan ystyried dulliau eraill o weithio gyda'n partneriaid a modelau gofal amgen. Mae enghreifftiau o hyn i'w gweld trwy'r adroddiad hwn.

Ein blaenoriaeth i oedolion yw hyrwyddo annibyniaeth ac atal anghenion rhag gwaethygu. Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y flaenoriaeth yw sicrhau bod ein Plant mewn Gofal yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd gorau posib.

Rydym yn fodlon iawn gyda'r canfyddiadau o'r arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar y gwasanaethau plant ym mis Hydref 2018, a oedd yn adrodd am welliannau sylweddol mewn meysydd allweddol, arweinyddiaeth a llywodraethiant gref, cydweithio da a diwylliant agored newydd o fewn y gwasanaeth. Mae AGC hefyd yn tynnu sylw at 'angerdd ac ymroddiad ar bob lefel' i ddarparu gwasanaethau rhagorol i blant. Cawsom dawelwch meddwl gan y sylwadau hyn, ond rydym yn cydnabod hefyd fod yna dal feysydd i'w gwella.

Caiff uwch swyddogion eu disgrifio fel 'gweladwy, ar gael ac yn gyrru gwelliannau', tra bod partneriaid ar y bwrdd diogelu rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd yn bositif ynghylch y newidiadau maent wedi eu gweld.

*Dyfyniad: Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Plant Ynys Môn, Fôn Roberts, "Mae'r gwasanaeth wedi dod yn bell mewn amser cymharol fyr. Rydym dal yn wynebu heriau o ran y cynnydd yn nifer y plant a ddaw i ofal ar Ynys Môn, sy'n golygu cynnydd yn y llwyth gwaith i'r timau. Fodd bynnag, rydym nawr mewn sefyllfa llawer gwell i gwrdd â'r heriau hyn"*

*Dyfyniad: Roedd Arweinydd y Cyngor a'r deilydd portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi, yn croesawu adroddiad AGC. Ychwanegodd, "Rydym wedi ymgymryd â rhaglen wella sylweddol dros y 18 mis diwethaf ac mae gwaith caled ein staff ymroddedig yn dangos canlyniadau positif."*

**Yr Iaith Gymraeg** – Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg ein staff am yr angen i roi cynnig rhagweithiol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â **'Mwy na Geiriau'** a Safonau'r Iaith Gymraeg. Er enghraifft, yn ystod 2018/19, rhannwyd crynodeb o bwyntiau allweddol mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg gyda staff yr Uned Ddarparu, cylchredwyd geirfaoedd dwyieithog o dermau gwaith cymdeithasol i staff er mwyn eu cefnogi gyda defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac mae codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi bod yn rhan o broses gynefino yr adran ar gyfer staff newydd. *Mae 89% o staff ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 79% o staff ein*

DRAFT

*Gwasanaethau Oedolion yn siaradwyr Cymraeg.* Mae Strategaeth Gweithlu y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cydnabod yr ymrwymiad i sicrhau bod y Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, mae'n ofyniad allweddol yn ein proses recriwtio, a chaiff ei fonitro'n gyson. Mae gan y Cyngor gytundeb partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ar gyfer y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol i gymryd myfyrwyr dwyieithog ac i gynnig cyfleoedd dysgu iddynt yn y gweithlu. Mae hyn yn helpu'r broses o recriwtio a chadw staff dwyieithog o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'n ddisgwyliad bod rheolwyr yn ystyried unrhyw bwyntiau dysgu o gwynion a dderbyniwyd, ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i roi sylw i'r pwyntiau hyn, pan fyddant yn ymateb i Gwynion o dan Gam 1 y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Os yw ymchwiliad Cam 2 yn digwydd, bydd y Gwasanaeth yn creu Cynllun Gweithredu yn dilyn yr ymchwiliad os yw'r Ymchwilydd Annibynnol yn gwneud argymhellion yn yr adroddiad Cam 2. Mae pwyntiau dysgu o gwynion a dderbynnir, ynghyd â chrynodebau o ganmoliaethau a dderbynnir, yn cael eu hadrodd a'u rhannu gyda'r rheolwyr yn chwarterol. Yn 2018/19, cofnodwyd 212 o sylwadau positif ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, a chofnodwyd 59 o sylwadau negyddol, 44 o gwynion Cam 1 ac 8 o gwynion Cam 2 yn ystod y flwyddyn.

DRAFT


## Safon Ansawdd 1

### Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

### *Oedolion*

Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fe wnaethom wahodd cyflenwyr i dendro am fodel newydd o Ofal a Chymorth Cartref ar draws yr Ynys – roedd hyn yn cynnwys pecynnau Gofal Iechyd Parhaus (CHC) sylfaenol a gofal o fewn y ddau gynllun Tai Gofal Ychwanegol (Penucheldre, Caergybi a Hafan Cefni, Llangefni).

Mae'r model newydd yn "rhannu" yr Ynys yn dair ardal gyda dim ond un darparwr yn llwyddiannus ym mhob ardal. Mae'r Contract hefyd yn cynnwys cynlluniau gofal ychwanegol mewn dwy o'r tair ardal (gyda darpariaeth i ddatblygu trydydd cynllun o'r fath cyn diwedd y contract). Bydd **Carelink** yn darparu gofal cartref yn ngogledd yr ynys, bydd **Abacare** yn gyfrifol am dde-orllewin yr ynys a bydd **Consortiwm Plas Garnedd**, sy'n cynnwys Plas Garnedd Crossroads a Gofal Seibiant, yn gyfrifol am becynnau Gofal cartref yn ne-ddwyrain Ynys Môn.




O dan ein model hanesyddol, roedd hi'n aml yn anodd sicrhau cynnig cyson o gefnogaeth ym mhob ardal i bobl, a oedd yn golygu bod unigolion a gâi eu cefnogi yn gorfod aros yn yr ysbyty yn hirach nag oedd angen, a'u bod yn cael gwasanaethau ar adegau amhriodol. Golygai hyn fod gennym wasanaeth anghyflawn, ac un nad oedd yn cynnig dewis a rheolaeth i unigolion, ac a gâi ei gomisiynu ar sail pecynnau wedi'u hamseru yn hytrach na deilliannau i unigolion. Credwn fod y model newydd wedi gwella'r sefyllfa hon yn fawr.

*Dyfyniad: "mae'r gwasanaethau gofal cartref ……. yn darparu gofal mwy hygyrch, yn gyson ac yn annog ein defnyddwyr gwasanaeth i ddod yn unigolion mwy annibynnol o fewn eu cymunedau" Arweinydd Cyngor Ynys Môn a deilydd portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi*

**Timau Adnodd Cymunedol** (TAC) – Mae ein nod o ddatblygu timau o staff gofal iechyd a chymdeithasol sy'n cefnogi pobl o fewn eu hardaloedd lleol eu hunain wedi symud ymlaen yn 18/19. Mae grŵp llywio yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i yrru hyn yn ei flaen, a chafwyd sesiynau ymgysylltu gyda staff amlddisgyblaethol yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y TAC. Byd hyn yn cyfrannu at fwy o gydweithio ac yn cychwyn ar ffyrdd o weithio a rennir. Mae llety ar gyfer staff wedi'i gytuno ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r awyrgylch mewn safleoedd dynodedig.

**Hyfforddiant Canlyniadau i Staff**
Mae staff ar draws y gwasanaethau Oedolion wedi mynychu hyfforddiant canlyniadau sy'n adeiladu ar y sesiynau hyfforddiant sgyrsiau cydweithredol a ddarparwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod 2018/19. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi comisiynu

DRAFT

hyfforddiant Canlyniadau integredig rhwng darparwyr gofal cartref ac ymarferwyr rheng-flaen er mwyn hwyluso dealltwriaeth gyffredin o'r maes a chytuno ar ddogfennaeth gyffredin.

### *Plant a Theuluoedd*

**Rydym ni'n ymwybodol o ACE –** Mae wedi'i brofi bod effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn andwyol i blant a gall eu heffeithio yn nes ymlaen yn eu bywydau. Fe wnaeth gwaith ymchwil a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) ganfod bod 47% o oedolion sy'n byw yng Nghymru (18-69 mlwydd oed) wedi profi mwy nag un Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

Mae unigolion sydd wedi profi pedwar neu fwy o brofiadau o'r fath yn wynebu risg llawer uwch o fynd i'r carchar, ac o fynd yn gaeth i gyffuriau.

Mae'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd sydd wedi'i sefydlu'n lleol yn adeiladu ar brosiectau sy'n bodoli yng Nghymru fel y dull peilot yng Ngogledd Cymru o ymdrin â theuluoedd cymhleth. Mae'r Rhaglen wedi sefydlu dull uchelgeisiol o ddatblygu'r gweithlu, ar draws y system gyfan, er mwyn ymateb i fregusrwydd trwy ganolbwyntio ar brofiadau ACE.

Credwn y bydd y rhaglen hon yn helpu i leihau'r galw ar blismona a phartneriaid allweddol, ac yn gwella canlyniadau i bobl sy'n byw ym Môn trwy ganolbwyntio ar drawsnewid y dull o blismona bregusrwydd i ddull aml-asiantaeth sy'n wybodus ynghylch ACE, sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac yn gallu atal gwraidd y broblem fel nad yw materion yn gwaethygu. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth cyflawn sy'n gallu ymateb yn well i anghenion unigolion a chymunedau lleol ar Ynys Môn, yn enwedig y bobl fwyaf bregus.

***Pwrpas –*** *Prif ddiben y grŵp cyflawni Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yw sicrhau darpariaeth leol, effeithiol aml-asiantaethol yn erbyn 4 amcan strategol y rhaglen.*

***Amcan 1 –*** *Gweithlu medrus a hyderus i ymateb yn fwy effeithiol i fregusrwydd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ACE, a hynny mewn gwaith plismona amser cyflym ac araf*

***Amcan 2*** *– Capasiti a medrusrwydd y sefydliad sy'n cwrdd yn rhagweithiol â galwadau sy'n newid*

***Amcan 3 –*** *Un 'drws ffrynt' integredig 24/7 ar gyfer bregusrwydd sy'n cyfeirio, yn cefnogi ac yn diogelu gwasanaethau iechyd a llesiant 'golau glas'*

***Amcan 4*** *– Ymateb system gyfan i fregusrwydd trwy weithredu dulliau sy'n seiliedig ar ACE ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol*

**Gwella Ymarfer** Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cwblhau ymarfer mapio proses trwy ein holl dimau, gan alinio ymarfer i'n system gofnodi electronig – sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae'r gwaith hwn yn sicrhau asesiadau mwy llyfn, ymweliadau statudol amserol, cofnodi gwell a gwell cefnogaeth i blant.

Mae **Teulu Môn** (ein Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) wedi datblygu ei **strategaeth ymgysylltu** ymhellach ac wedi gwreiddio cyfeiriadau'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i'r broses Teulu Môn – sy'n galluogi ymateb cyflym i Deulu Môn/TAT, GAP neu gyfeirio i wasanaeth anstatudol perthnasol.

## Blaenoriaethau 2019/20

- TAC – Bydd pob un o'r 3 Tîm Adnodd Cymunedol yn weithredol yn y safleoedd dynodedig a byddant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth integredig gan ymgorffori darparwyr gofal cartref a Trydydd Sector.
  - Eiriolaeth – Bydd dogfennau asesu yn cael eu datblygu i adlewyrchu'r angen i adnabod yr angen am eiriolaeth yn ystod pob cam o ymyrraeth a sicrhau ein bod yn defnyddio gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru yn effeithiol pan nad oes unrhyw drefniadau eiriolaeth anffurfiol eraill mewn lle.
  - Byddwn yn ail-dendro'r lleoliadau Byw â Chymorth gyda'r bwriad o gynyddu cyfleoedd am annibyniaeth i'r eithaf ar gyfer y bobl sy'n byw yno
  - Byddwn yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid i fabwysiadu Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu (AD) newydd

**Mesur Safon Ansawdd 1:**

- 97.5% o bobl yn adrodd eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch (Oedolion, Gofalwyr a Phlant)
- 95.1% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymateb yn bositif i'r cwestiwn "Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi / oeddech chi gyda'r gwasanaethau gofal a chymorth y gwnaethoch eu derbyn?" (Oedolion, Gofalwyr, Plant, Rhieni)
- 96% o oedolion sy'n derbyn pecyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth maent wedi ei dderbyn
- 96% o oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn adrodd eu bod yn fodlon â sut mae'r gwasanaethau maent wedi'u derbyn yn cwrdd â'u hanghenion

## Safon Ansawdd 2

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl

DRAFT

### *Oedolion*

Mae **Cydlynu Asedau Lleol** yn fodel newydd o weithio gyda chymunedau ar Ynys Môn. Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gydag unigolion a grwpiau i ddatblygu a defnyddio rhwydweithiau lleol i hyrwyddo datrysiadau lleol i anghenion lleol.

- ◊ Datblygu model rhagnodi lleol i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, trydydd sector a'r ALl.
- ◊ Lleihau unigedd ac arwahanrwydd yn ein cymunedau
- ◊ Hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gennym nawr 6 o Gydlynwyr Asedau Lleol (CALl) yn gweithio ledled yr ynys. Mae dau yn cael eu hariannu trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) a chafodd 4 arall eu cyflogi yn 18/19 trwy Gytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl, BIPBC (Clwstwr Meddygfeydd Teulu) a'r 3ydd sector. Mae CALl hefyd yn gweithio gyda chymunedau i ennill statws dementia-gyfeillgar a sefydlu hybiau cymunedol. O ganlyniad i hybiau mae tystiolaeth fod gan bobl well dealltwriaeth ynghylch sut i dderbyn cyngor a chymorth am weithgareddau er mwyn atal neu leihau unigedd ac i hyrwyddo llesiant.

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, cyflawnwyd y canlyniadau hyn:
Nifer y bobl a gefnogwyd – 247
% o bobl sy'n teimlo'n llai unig – 88%
% o bobl sy'n adrodd gwahaniaeth positif – 91%

Bydd teclyn mesur newydd (Elemental) yn cael ei ddefnyddio i dracio canlyniadau llesiant pobl.

Blaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yw sefydlu **Hybiau Cymunedol** ar draws yr ynys. Mae hybiau cymunedol yn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau cefnogol gan gynnwys cyngor a gwybodaeth, ymgyfeillio, cludiant. Mae nifer o wahanol hybiau cymunedol ar gael yn amrywio o hybiau mewn cyfleusterau Gofal Ychwanegol, canolfannau Agewell a chynlluniau tai gwarchod, ac yn aml iawn maent yn defnyddio cyfleusterau sy'n bodoli yn y gymuned megis neuaddau pentref, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Cafodd y model hyb cymunedol yn Hafan Cefni ei lansio yn 2018 ac mae'n cynnig rhaglen o weithgareddau mewn lleoliad Gofal Ychwanegol ar gyfer y tenantiaid a'r

gymuned leol ehangach. Mae enghreifftiau'n cynnwys dosbarthiadau codymau, bwyta'n iach, podiatreg, dosbarthiadau ymarfer corff, cyngor a gwybodaeth, cefnogaeth yn gysylltiedig â thai.

Mae Cynghrair Hybiau Cymunedol wedi'i sefydlu i weithredu fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chydweithio posib, ac i adnabod unrhyw faterion positif neu negyddol wrth gefnogi hybiau cymunedol i lwyddo ar yr ynys.

***Plant a Theuluoedd***

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sefydlu Swydd Perthnasau Iach, o dan Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, a fydd yn hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o gam-fanteisio ar blant ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. Roedd hyn yn cynnwys diwrnod ymwybyddiaeth o Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CSE) ar 18 Mawrth 2019 – gan ymweld â phlant a phobl ifanc mewn gwahanol ysgolion a chlybiau ieuenctid ar draws yr ynys yn ogystal ag ymweld â chymunedau lleol. Bydd y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen ar hyd y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae **Protocol "Ar Goll"** rhanbarthol yn cael ei ddatblygu er mwyn cael dealltwriaeth gyffredin ymysg y chwe Awdurdod Lleol ac asiantaethau partner hefyd**.**

Yn ystod gwanwyn a haf 2018 fe wnaeth plant a phobl ifanc drwy'r wlad gymryd y cyfle i ddweud eu dweud ar chwaraeon a'u lles. Fe wnaeth dros 1000 o ysgolion gymryd rhan yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol gan Chwaraeon Cymru, yr arolwg mwyaf ei faint a'r mwyaf adlewyrchol o'i fath yng Nghymru, ac o bosib y byd.

Ar Ynys Môn mae 56% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf dair gwaith yr wythnos, yr ail ganran uchaf yng Nghymru o gymharu â 50% yn 2015 a'r cyfartaledd cenedlaethol presennol o 48%. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod:

- 67% o ddisgyblion yn aelodau o glwb chwaraeon
- 77% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb tu allan i'r ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf
- 86% o ddisgyblion yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgaredd newydd

*Dyfyniad: "Mae Ynys Môn yn gwneud yn arbennig o dda pan ddaw at ddarpariaeth chwaraeon i blant a phobl ifanc. Mae dod yn ail trwy Gymru gyfan yn brawf o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar yr Ynys, gan ysgolion, hyfforddwyr gwirfoddol mewn clybiau chwaraeon di-ri a thîm datblygu chwaraeon y Cyngor ei hun." Y Cynghorydd Carwyn Jones, deilydd portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd*

**Blaenoriaethau 2019-20**

- **Yr agenda gordewdra mewn plant** – rydym eisiau datblygu dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod ar Ynys Môn. Byddwn yn anelu at leihau nifer y plant sy'n cael eu hadnabod fel plant gordew yn unol â'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Ein prif ffocws fydd datblygu dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant gordew neu blant nad yw eu pwysau'n iach, gan gweithio tuag at agenda Cymru Iachach (gyhoeddwyd ym Mehefin 2018, yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar

DRAFT

gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru).

**Mesur Safon Ansawdd 2:**

- Roedd 518 o oedolion angen gofal preswyl ar ryw bwynt yn ystod y flwyddyn (o gymharu â 573 y llynedd).
- Roedd 295 o oedolion mewn gofal preswyl ar 31 Mawrth 2018 (o gymharu â 366 yn 2018).

DRAFT

<u>**Safon Ansawdd 3**</u>

## Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Trefniadau Diogelu Corfforaethol**

Mae “diogelu” yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor. Mae’r Awdurdod Lleol wedi:

**Prif gyflawniadau**

- Darparu hyfforddiant i staff yn unol â’u rôl a chyfrifoldebau gyda ffocws ar Drais Domestig a Chaethwasiaeth Fodern.
- Parhau i sicrhau bod goblygiadau diogelu sy’n deillio o ddatblygiadau mawr yn cael eu hadnabod, a chamau lliniaru’n cael eu datblygu.
- Rydym yn parhau i gyfrannu'n sylweddol fel bartner actif ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, trefniadau gwarchod y cyhoedd Aml-asiantaeth (MAPPA) a threfniadau Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC)

***Y Gwasanaethau Oedolion***

**Prif gyflawniadau**

- Wedi datblygu polisi diogelu interim sy’n cydymffurfio â’r Ddeddf, tra’n aros i’r gweithdrefnau Cymru Gyfan gael eu datblygu.
- Wedi cynnal gwerthusiadau aml-asiantaeth o ymarfer diogelu.
- Wedi datblygu Tîm DoLS i reoli’r galw cynyddol am asesiadau Mesurau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a gwell prosesau ar gyfer asesu’n gyflym ac yn effeithiol, gan felly leihau’r gwaith sy’n cronni. Mae’r tîm hefyd yn cynghori timau a darparwyr gwaith cymdeithasol eraill, ac yn ystyried adroddiadau am drefniadau amddifadu o ryddid anawdurdodedig.
- Adolygu sut caiff eiriolaeth ei ddarparu i wneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â’r Ddeddf – gan sicrhau y caiff llais y person ei glywed ar gamau allweddol ar hyd eu taith gofal cymdeithasol
- Wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Gwella Ansawdd – gan ein helpu ni i sicrhau bod ymarfer yn ddiogel ac yn cwrdd â’r safonau gofynnol.
- Wedi lansio Protocol Hunan-Esgeulustod Gogledd Cymru yn lleol
- Wedi monitro’n agos y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu o ran ansawdd y gofal y gwnaethant ei ddarparu trwy ofal cartref, byw â chymorth â chartrefi gofal tymor hir.

***Gwasanaethau Plant a Theuluoedd***

**Prif gyflawniadau**

- Mae ein harolygon  mewnol ac arolygon allanol o ymarfer yn dangos bod ymarfer diogelu wedi gwella.
- Rydym wedi parhau i weithredu’r Fframwaith Gwella Ansawdd Ymarfer: sy’n darparu cyfres o brosesau sicrwydd systematig, wedi’u cynllunio a ddefnyddir i siapio dysg a gwelliant. Mae hyn yn ein helpu i adnabod ym mhle mae angen gwelliannau pellach a

DRAFT

beth yw’r ffordd orau o gyflawni’r rhain.

- Wedi datblygu a gweithredu ymagwedd newydd tuag at amddiffyn plant – Cryfder ar y Cyd. Y nod yw sicrhau bod Cynlluniau Amddiffyn Plant yn cael eu cyd-gynhyrchu a’u bod yn canolbwyntio ar y newidiadau pwysig sydd eu hangen i gadw plentyn yn ddiogel ac yn tystiolaethu’r ymyraethau i gyflawni’r newidiadau hynny.
- Gwella sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau A47 gan sicrhau bod y Model Risg Gwynedd/Thornton yn cyfrannu at y dadansoddiad p’un a yw’r plentyn wedi/yn debygol o ddioddef niwedd sylweddol.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19**

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein polisi ac ymarfer Diogelu Oedolion i adlewyrchu’r newid mewn dyletswydd gyfreithiol o dan y Ddeddf, ac i ymateb i bolisi a gweithdrefnau cenedlaethol newydd gan Lywodraeth Cymru.
- Gwella Prosesau Adolygu Statudol – canolbwyntio ar well paratoi, craffu cadarn ar ofal a chefnogaeth i blant, a rhoi’r plentyn wrth galon y broses adolygu.
- Parhau â lansiad a chyflwyniad Cryfder ar y Cyd

**Mesur Safon Ansawdd 3:**

- Roedd 90.48% o ddefnyddwyr gwasanaeth sy’n oedolion wedi ymateb yn bositif i’r cwestiwn, "Ydy cefnogaeth a sefydlwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eich helpu i deimlo’n saff ac yn ddiogel yn eich cartref?"
- 96% o gynlluniau gofal a chefnogaeth (neu gynlluniau cefnogaeth i ofalwyr ifanc) wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, o fewn amserlenni a gytunwyd, o gymharu ag 88% y flwyddyn gynt.
- Mae 79% o oedolion a gofalwyr yn yr Arolwg Dinasyddion yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel
- Mae 81% o blant yn yr Arolwg Dinasyddion yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel

- Roedd ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf mewn meysydd diogelu fel a ganlyn:

- Cafodd 91% o ymholiadau amddiffyn oedolion eu cwblhau o fewn 7 diwrnod
- Cafodd 88% o Gynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol eu cynnal o fewn yr amserlenni statudol
- Cafodd 94% o’r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant eu cynnal ar amser
- Mae gan 100% o’r plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant Weithiwr Cymdeithasol wedi’i ddynodi ar eu cyfer
- Mae gan 100% o Blant sy’n Derbyn Gofal Weithiwr Cymdeithasol wedi’i ddynodi ar eu cyfer
- 2% Ail-gofrestriadau o blant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol
- 241 diwrnod = Yr amser cyfartalog i’r holl blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn

## Safon Ansawdd 4

### Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

#### *Cefnogaeth i weithio (Oedolion a Phlant)*

Mae'r **Cynllun OPUS** cenedlaethol, a'r cynlluniau **Trac ac Adtrac** yn cael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Mae Opus yn cefnogi unigolion dros 25 oed sy'n economaidd anweithredol neu sy'n ddi-waith ers amser hir, tra bod Trac (a gaiff ei reoli gan Wasanaeth Addysg a Dysgu Ynys Môn) yn cefnogi pobl ifanc 11-16 mlwydd oed i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu llawn botensial. Mae Adtrac yn brosiect rhanbarthol a ariennir gan yr UE, sy'n cael ei weithredu gan Awdurdodau Lleol ar draws Gogledd Cymru er mwyn darparu gwasanaeth mentora pwrpasol i helpu pobl ifanc (NEET) rhwng 16 a 24 mlwydd oed i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn ddibynnol ar eu galluoedd a'u hoedran, mae'r unigolion yn cael cynnig amrywiaeth o gefnogaeth gan gynnwys hyfforddiant, cefnogaeth therapiwtig a mentora.

Mae OPUS ar Ynys Môn wedi bod yn darparu cefnogaeth ac ymyraethau sydd wedi rhoi'r sgiliau priodol i'r cyfranogwyr allu sicrhau cyflogaeth addas. Mae Trac ar Ynys Môn wedi cynnig y cyfle i ddysgwyr fynychu cyrsiau byr a phrofiad gwaith wedi'i deilwra sy'n eu helpu i ddatblygu hyder, gwydnwch a hunan-barch. Mae'r prosiect Adtrac yn seiliedig ar ymagwedd holistaidd, aml-asiantaeth ar gyfer datblygu cynllun personol sy'n helpu i gael gwared ar rwystrau, yn hyrwyddo llesiant a hyder, ac yn datblygu sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc fregus, gan gynnwys y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl isel i gymedrol ac anghenion cymhleth.

**O'r 101 o unigolion a gofrestrwyd ar gyfer OPUS, mae nifer wedi ennill cymhwyster, wedi gwirfoddoli, wedi ennill cyflogaeth neu gyfuniad o'r cyflawniadau a nodwyd uchod.**

- **mae 79 wedi ennill cymhwyster,**
- **mae 42 wedi gwirfoddoli ,**
- **mae 10 wedi sicrhau cyflogaeth.**

**O'r unigolion hynny a gawsai eu cefnogi gan TRAC:**

- **mae 108 wedi parhau mewn addysg llawn amser,**
- **96 mewn risg is o ddod yn NEET (nid mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant),**
- **48 yn symud ymlaen i gwrs lefel uwch llawn-amser mewn coleg.**

**Ar ddiwedd Ionawr 2019, roedd cyfanswm o 75 o bobl ifanc o bob cwr o Ynys Môn wedi eu cofrestru ar y prosiect ADTRAC. Mae 9 o bobl ifanc wedi cael eu cyfeirio gan Wasanaethau Cymdeithasol CSYM, gyda 7 wedi cofrestru ac yn ymwneud yn llawn â'r prosiect a 2 gyfeiriad pellach ar y gweill.**

## Oedolion

Ar ddechrau mis Ebrill 2018 fe wnaeth **Gwasanaeth Cefnogaeth y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol** (CMHSST) ymchwilio i'r buddion ar gyfer ein cleientiaid o'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Yn ystod y gwaith, ymchwil fe wnaethom ganfod bod y ddarpariaeth cyfranogiad grŵp gan Wasanaethau Cefnogaeth Iechyd Meddwl Cymunedol Sir y Fflint (y gwasanaeth yn Sir y Fflint sy'n cyfateb i'n gwasanaeth ni) yn ddatblygedig iawn, ac dysgom lawer o nifer o ymweliadau â'r sir i weld drosom ein hunain sut roeddent yn rheoli cyfleoedd i gleientiaid gymryd rhan mewn grŵp ynghyd â'r buddion a gawsant o gymryd rhan mewn grŵp.

Ar ôl llwyddiant cynnar gyda chlwb rhedeg a sefydlwyd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a chlwb cerdded wedi hynny, fe wnaethom benderfynu sefydlu rhaglen o weithgareddau grŵp ar gyfer ein cleientiaid. Roedd rhwng 12 ac 18 o bobl yn mynychu'r clwb rhedeg bob wythnos yn rheolaidd.

Isod mae sampl o ddatganiadau adborth gan gleientiaid.

Maisie Roberts.pdf    Alun G Jones.pdf    Olivia Gillingham.pdf

Trwy ddatblygu'r rhaglen hon chwe mis yn ôl fe wnaethom ehangu ein cynnig i unigolion, gan felly gynnig y cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn ogystal â chynnig cymorth un i un. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu cyfleoedd mewn dwy ganolfan hamdden ar gyfer chwarae badminton, bowlio, grwpiau rhiant a phlentyn, celf a chrefft ynghyd â chyfleoedd dysgu mewn cydweithrediad â Choleg Menai a gwasanaethau eiriolaeth Gogledd Cymru ymysg eraill.

Rydym hefyd wedi sefydlu tri chlwb llesiant ar draws yr ynys ac rydym wedi ymgeisio am grant i ganiatáu rhagor o weithgareddau awyr agored, gan gynnwys dringo a chaiacio.

Mae cyfranogiad wastad yn digwydd yn unol â'r anghenion a nodwyd ar gyfer y cleient, o ran yr amcanion sydd wedi'u gosod ar ei cyfer. Byddwn yn cynnig y gymysgedd hon o gefnogaeth i'r dros 200 o gleientiaid sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth wrth fynd ymlaen.

**Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn –** Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i gynnig taliadau uniongyrchol fel yr opsiwn gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd i gymryd rheolaeth o'u pecyn gofal eu hunain, a byw'r bywyd hyblyg y dymunant ei fyw. Mae gwasanaeth TU Ynys Môn wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf o 106 i 162 sy'n dangos cynnydd o 52.83% yn eu defnydd. Mae hyn hefyd wedi amlinellu arbedion sylweddol i'r awdurdod o £5.00 yr awr ar gyfartaledd am bob awr a gomisiynir o gymharu gwasanaeth asiantaeth a gomisiynir.

- Cyfanswm gwariant Taliadau Uniongyrchol – **<u>2018/19 £1,422,000</u>**
- Rhagamcan o gostau'r Gwasanaeth trwy wasanaeth a gomisiynir - £**<u>2,051,203</u>**
- Arbedion i'r gwasanaeth trwy TU o gymharu â chomisiynu gwasanaethau - **<u>£629,203</u>**

**Straeon llwyddiant Taliadau Uniongyrchol –** Dros y 12 mis diwethaf mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio gyda Leonard Cheshire, Mencap Môn a sefydliadau eraill o'r trydydd sector i dreialu'r prosiect "Innovative Active Communities" (IAC) sy'n cael ei lansio yn fuan ym

DRAFT

mis Mawrth 2019 trwy Gymru yn y Senedd. Mae'r prosiect wedi'i arwain gan ein defnyddwyr gwasanaeth taliadau uniongyrchol sydd ag anableddau dysgu, ynghyd â'u teuluoedd, i lunio dewislen o weithgareddau cymunedol y gallant eu gwneud mewn grŵp trwy gronni adnoddau/cyllid at ei gilydd. Mae hyn yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ffurfio cydweithfeydd a chyflogi cynorthwywyr personol brwdfrydig o'u dewis i'w cefnogi i allu cael mynediad at y gweithgareddau maent yn eu dewis. Trwy ddod â'u hadnoddau at ei gilydd, bydd yn creu llai o ddibyniaeth ar gefnogaeth 1-1 ar gyfer defnyddwyr abl, a byddant yn gallu cael at fwy o weithgareddau na'r angen a aseswyd oherwydd y byddant yn cronni eu horiau ynghyd. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd yr awdurdod lleol yn gallu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i arbed unrhyw gyllid sydd heb ei wario. Yn 2018/19 rydym wedi hawlio'n ôl gwerth dros **£40,000** o gyllid oedd heb ei wario trwy fonitro'r cyfrifon TU yn ofalus.

Trwy gronni adnoddau ynghyd mewn ffordd greadigol, mae taliadau uniongyrchol hefyd wedi galluogi i grŵp o gleientiaid anabledd dysgu sy'n byw gyda'u rhieni yn y gymuned ar hyn o bryd, i arbed ffracsiwn o'u cyllid wythnosol a chael seibiant gofal ysbaid pwrpasol gyda'u cynorthwywyr personol.

### *Plant a Theuluoedd*

**Cronfa Dydd Gŵyl Dewi –** pwrpas y gronfa yw cefnogi pobl ifanc sydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol i gael mynediad at gyfleoedd a fydd yn eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Mae'r arian hwn yn mynd yn uniongyrchol i'r bobl ifanc sydd/a fu mewn gofal, a gellir ei ddefnyddio fel ffordd o hybu annibyniaeth, datblygiad ac i ddod yn eu blaenau yn gyffredinol. Mae'r arwain wedi cael ei wario ar addysg; cyflogaeth; iechyd a llesiant; tai a mynediad at gyngor a chymorth parhaus. Yn lleol, mae nifer o'n pobl ifanc wedi defnyddio'r arian ar wersi gyrru ac ar ffioedd cyrsiau. Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn rhagor o gyllid ar gyfer 2019-2020.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2019/20

- Sicrhau bod y ddarpariaeth ddydd yn y dyfodol yn rhoi cyfleoedd i unigolion sydd ag anabledd dysgu gyflawni eu potensial a chwarae rhan actif yn eu cymunedau

| **Mesur Safon Ansawdd 4:** |
|---|
| • 85% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymateb yn bositif i'r cwestiwn, "Wyt ti'n teimlo bod y gefnogaeth rwyt yn ei derbyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dy helpu i wneud y pethau sy'n bwysig i ti?" |

## Safon Ansawdd 5

### *Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach*

#### *Oedolion*

Defnyddiwyd elfennau refeniw a chyfalaf y **Gronfa Gofal Canolraddol (ICF)** yn 2018/19 ar Ynys Môn i yrru a galluogi gweithio'n integredig ar draws yr holl grwpiau cleient rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol, wrth gefnogi pobl i aros yn annibynnol. Rydym wedi bwrw ymlaen â phrosiectau penodol yn y meysydd hyn: Dementia, Anabledd Dysgu, Awtistiaeth a phlant mewn gofal ar Ynys Môn.

Mae cynlluniau lleol yn sicrhau bod y gronfa ICF yn ein helpu i gyflawni amryw o egwyddorion a nodau penodol, yn cynnwys:

*Integreiddio – gwasanaeth Dementia estynedig Garreglwyd, "Môn Enhanced Care" (MEC) – sy'n osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.*

*Ataliaeth – Mae'r prosiectau a gefnogir yn cynnwys: gwelyau Camu i Fyny Camu i lawr mewn cartrefi gofal a Thai Gofal Ychwanegol, y model atal a datblygu ar gyfer Anableddau Dysgu, Night Owls. Fflat symud ymlaen ar gyfer Anableddau Dysgu yn Llawr y Dref.*

*Gwerth Cymdeithasol – mae prosiectau'n cynnwys Cydlynu Asedau Lleol, Un Pwynt Mynediad 3ydd Sector, Swyddfeydd Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd.*

Un prosiect a gefnogwyd yn benodol yn 2018/19 oedd datblygu ymhellach y gwasanaeth **Shared Lives** sydd eisoes ar gael yn Ynys Môn. Yn ei ffurf newydd mae'r cynllun yn anelu at gynnwys y rheini sydd â dementia trwy edrych ar recriwtio mwy o alluogwyr Shared Lives i ddarparu cefnogaeth ddementia i deuluoedd yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag mewn lleoliad gofal preswyl neu ysbyty.

Disgwylir y bydd y gwasanaeth newydd yn gwbl weithredol yn 2019, a bydd ar gyfer pobl hŷn sydd â dementia cynnar, gan roi'r cyfle i unigolion dderbyn cefnogaeth gyda'r gofalwr a gyfatebwyd iddynt neu i ymweld â nhw'n rheolaidd am gefnogaeth ddydd neu ofal ysbaid ar eu cyfer hwy a'u teuluoedd.

#### *Plant a Theuluoedd*

#### Tîm o Amgylch y Teulu (TAT) a Teuluoedd yn Gyntaf – Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru:

Mae'r Tîm TAT wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2018/19. Mae TAT yn chwarae rhan bwysig iawn yn narpariaeth gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a'u teuluoedd ar Ynys Môn. Mae TAT yn rhan o **Wasanaeth Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar** ehangach sy'n

cynnwys chwaer-dîm o'r enw y **Gwasanaeth Camu Ymlaen** sy'n cynnwys dau Weithiwr Cymdeithasol, Gweithiwr Camddefnyddio Sylweddau, Swyddog Llesiant a Chynhwysiad a Gweithiwr Perthnasau Iach sy'n darparu gwasanaethau i deuluoedd sydd wedi cael eu camu i lawr o ymyraethau statudol. Maent hefyd yn gallu darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar arbenigol yn y meysydd hynny sy'n cynorthwyo'r TAT ac yn lleihau'r angen i uwch-gyfeirio achosion am ymyrraeth gwaith cymdeithasol. Mae'r tîm o amgylch y teulu wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu model o ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac mae'r holl aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant ar y dulliau hynny o gyfathrebu, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gwaith gyda theuluoedd sy'n hwyluso newid a chanlyniadau positif.

***Er enghraifft/ Astudiaeth achos 1:*** *Cafodd Teulu A eu cyfeirio gan yr ysgol gynradd oherwydd pryderon oedd ganddynt am lesiant emosiynol a phresenoldeb Plentyn A. Roedd y teulu eisiau bod yn siŵr y byddai'r plentyn yn cael ei gefnogi trwy'r newid o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Fe wnaeth y TAT gydlynu cyfarfod teuluol a datblygu cynllun teulu a oedd yn cynnwys y teulu, y plentyn ac asiantaethau megis yr ysgol, Therapydd Teulu / Therapydd Chwarae NSPCC, Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Adran Dai yr Awdurdod Lleol, Cymdeithas Tai a'r swyddog lles addysg.*

*Nid oes ar Blentyn A angen cefnogaeth bellach gan ei fod wedi setlo'n llwyddiannus yn yr ysgol uwchradd ac mae'n defnyddio strategaethau ymdopi y mae wedi eu dysgu er mwyn delio ag ymdopi yn y dyfodol agos. Mae Plentyn A wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol uwchradd, sy'n cael gwared ar yr angen i asiantaethau ymyrryd ac yn gwella presenoldeb, hyder a llesiant emosiynol y plentyn.*

**Gwybodaeth: Mae'r tîm wedi derbyn 204 o gyfeiriadau yn ystod 2018/2019, cynnydd o'r 146 a dderbyniwyd yn 2017/2018 a'r 165 a dderbyniwyd yn 2016/2017**

**Tîm o Amgylch y Teulu (Teuluoedd yn Gyntaf):**

Mae gan TAT rôl bwysig i'w chwarae hefyd wrth ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar i blant a'u teuluoedd ar Ynys Môn. Mae'r tîm wedi derbyn 204 o gyfeiriadau yn ystod 2018/19, cynnydd o'r 146 a dderbyniwyd yn 2017/2018 a'r 165 a dderbyniwyd yn 2016/2017. Maent yn gallu darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar arbenigol yn y meysydd hynny sy'n cynorthwyo'r TAT ac yn lleihau'r angen i uwch-gyfeirio achosion am ymyrraeth gwaith cymdeithasol.

Mae ein **Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** wedi gweithio gyda chyfanswm o 50 teulu yn ystod 2018/19. Yn hanesyddol roedd y gwasanaeth yn cael ei rannu rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag ym mis Ebrill 2019 bydd y grŵp presennol o staff yn symud i'r swyddfeydd yn Llangefni ac yn cael eu defnyddio'n llwyr gan adran plant a theuluoedd Ynys Môn yn unig. Roedd y gwasanaeth IFSS wedi cynnal ail werthusiad o'r gwasanaeth ac roedd hynny wedi arwain ein penderfyniad i newid y trefniadau hyn. Mae'r gwerthusiad hefyd wedi cadarnhau y gellid defnyddio'r model IFSS yn y meysydd trais domestig ac anhwylderau pryder cyffredin, gan ehangu'r meini prawf o weithio gyda theuluoedd lle mai camddefnyddio sylweddau sydd wedi'i adnabod fel y prif ffactor risg.

### *Blaenoriaethau ar gyfer 2019/20*

- **Shared Lives** – Bydd rôl y Cydlynydd yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi galluogwyr, datblygu adnoddau hyfforddiant sy'n ymgorffori egwyddorion gofal dementia a chefnogaeth person-ganolog, ac ar ddarparu mentora a chefnogaeth.
- **Cefnogaeth ar gyfer Gordewdra** – byddwn yn gweithio i hyrwyddo plant a theuluoedd iach***.***

DRAFT

**Mesur Safon Ansawdd 5:**

- Mae 99.6% o ofalwyr oedolion wedi cael cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion hwy eu hunain
- Roedd 94.44% o ofalwyr oedolion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn y 6 mis diwethaf, ydych chi'n teimlo eich bod wedi bod yn rhan neu fod eich barn wedi'i gymryd i ystyriaeth cymaint ag oeddech eisiau, mewn trafodaethau am y gefnogaeth a ddarperir i'r person rydych yn gofalu amdano?"

DRAFT

## Safon Ansawdd 6

## Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

### *Oedolion*

Mae'r fflatiau a ddatblygwyd yn Llawr y Dref, Llangefni wedi rhoi cyfle i unigolion ag **anableddau dysgu** gael mwy o annibyniaeth drwy fyw mewn fflat asesu gyda chymorth wedi'i deilwra am ychydig o wythnosau neu fisoedd er mwyn rhoi cefnogaeth iddynt i gyflawni eu nod o fyw'n annibynnol.

Yn 2018, mewn partneriaeth â Clwyd Alyn, agorwyd **Hafan Cefni**, cyfleuster Gofal Ychwanegol pwrpasol, gyda 63 o unedau, yn agos i ganol tref Llangefni, gyda chyfleusterau ychwanegol ar y safle sydd yn hygyrch i'r gymuned leol. Mae manteision byw mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol yn glir – ac yn barod mae pobl yn dweud fod eu lefelau annibyniaeth, iechyd a llesiant wedi gwella.

#### Iechyd Meddwl a Cham-drin Sylweddau

Gweler isod rai ystadegau ynghylch unigolion sydd â phroblem iechyd meddwl

- Derbyniwyd cyfartaledd o 270-280 y mis o gyfeiriadau'n ymwneud â salwch meddwl oedolion yn Ynys Môn (3,315 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018).
- 145-155 o gyfeiriadau'r mis ar gyfer plant a phobl ifanc ar Ynys Môn (1,774 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018). Mae hyn 2% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
- Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ymhlith yr holl blant sydd ag unrhyw gynllun statudol, mae iechyd meddwl rhiant yn un o'r rhesymau dros eu cyfeirio yn bron 1 o bob 4 achos (31% ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal) ac mae 12% o blant sydd â chynlluniau statudol yn derbyn triniaeth am salwch meddwl.
- Yn Cefnogi Pobl, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Medi 2019, mae 69% o gyfeiriadau'n nodi fod gan y person anghenion iechyd meddwl. Ar gyfer unigolion 55+ oed, nodwyd fod gan 13% anghenion iechyd meddwl. Ymysg y rhai â phroblemau iechyd meddwl (Ebrill-Medi), allan o 348 o gyfeiriadau, roedd 13% (45) ag anghenion uchel, 49% (170) ag anghenion canolig a 38% (133) ag anghenion isel.

- Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ymysg yr holl deuluoedd lle mae gan blant gynllun statudol, mae cam-drin sylweddau/alcohol yn un o'r rhesymau dros gyfeirio tua thraean ohonynt (51% ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal) a nodwyd fod gan 8% o'r plant ar gynlluniau statudol anghenion yn ymwneud â cham-drin sylweddau/alcohol.

Er mwyn cefnogi unigolion a theuluoedd, ariannodd Cefnogi Pobl lety a chymorth hyblyg i 947 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn 2018/19. Mae Cefnogi Pobl hefyd yn darparu 20 o unedau ar gyfer achosion cyffredinol o ddigartrefedd o dan y dull Tai yn Gyntaf (serch hynny, mae iechyd meddwl fel arfer yn angen) ac mae cynlluniau am hyd at bum uned benodol ar gyfer unigolion sydd ag iechyd meddwl fel y prif angen. Mae'r cynllun olaf hwn wedi cychwyn ac mae'n seiliedig ar fodel o waith cefnogi dwys gydag Uned Hergest er mwyn rhyddhau pobl ag anghenion iechyd meddwl dwys o'r ysbyty yn ddiogel.

Mewn perthynas ag unigolion sydd ag anghenion mwy sylweddol ac sy’n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cam-drin Sylweddau i dderbyn gofal a thriniaeth er mwyn eu cynorthwyo i roi’r gorau i gam-drin sylweddau/alcohol, neu i ostwng eu defnydd o sylweddau/alcohol, roedd 305 o gyfeiriadau rhwng mis Mawrth a Thachwedd 2018 (sydd yn uwch na 298 rhwng Rhagfyr 2016 - Tachwedd 2017).

### *Gwasanaethau Plant a Theuluoedd*

**Cartref Clyd Môn -** Ym mis Tachwedd 2018, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu darpariaeth Cartrefi Grŵp Bach ar yr Ynys, a elwir yn Cartref Clyd Môn erbyn hyn. Cartrefi Awdurdod Lleol yw’r rhain lle bydd dau o blant yn byw gyda’i gilydd mewn amgylchedd ‘cartrefol’ ac yn byw mewn ffordd debyg i blant sy’n byw gartref h.y. mynd i’r ysgol, byw yn y gymuned, cael cymdogion a ffrindiau ayb. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau i agor dau gartref yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, a dau arall yn 2020/21. Disgwylir y bydd tua £231,448 o arbedion yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyntaf a £291,448 o arbedion pellach yn ystod yr ail flwyddyn.

**Pecyn Gofalwyr Maeth –** Er mwyn gwella ein cynnig i ddarpar ofalwyr maeth a chynorthwyo gyda recriwtio, cytunodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor ym mis Tachwedd 2018 i gynnig pecyn mwy cystadleuol o ran lwfansau a manteision o fis Ebrill 2019, a rhagwelir y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i recriwtio Gofalwyr Maeth i’r Cyngor ac yn creu arbedion. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith y byddai’r pecyn yn cynnig:

- Cynnydd o 10% yn y Lwfans Maethu;
- Gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor;
- Cerdyn Aelodaeth Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn yn rhad ac am ddim;
- Tocyn parcio rhad ac am ddim ar gyfer meysydd parcio’r Cyngor.

Mae’r Cyngor yn parhau i fod yn bartner yng **Ngwasanaethau Mabwysiadu Gogledd Cymru** ac yn ystod y flwyddyn nesaf bydd yn cymryd rhan mewn gwaith i gynyddu nifer y rhieni sy’n Mabwysiadu sy’n cael eu recriwtio ledled Gogledd Cymru. Mae nifer cynyddol o blant yng ngofal yr awdurdod lleol na allant ddychwelyd at eu teuluoedd genedigol. Mae’r plant hyn yn awr angen teuluoedd parhaol, cariadus a all roi sefydlogrwydd a chyfle iddynt ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial.

### *Gwasanaethau Tai*

Roedd o leiaf 1,507 o ddigwyddiadau/troseddau **cam-drin domestig** yn Ynys Môn yn 2018 (tua 570 o gartrefi), serch hynny, tanamcangyfrif yw hyn gan fod cam-drin domestig yn cael ei adlewyrchu mewn troseddau eraill, megis trefn gyhoeddus a difrod troseddol. Bu cynnydd o 23% yn y cyfraddau o gymharu â 2017.

Mae’r broblem hon, sydd yn cynyddu’n gyflym, yn amlwg yng Ngwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn. Ymysg y plant sydd ag unrhyw gynllun statudol, mae tua thraean ohonynt yn cael eu cyfeirio oherwydd cam-drin domestig rhwng y rhieni.

Yn 2018/19, cyfrannodd Cefnogi Pobl dros £190k i ddarparu cymorth cysylltiedig â thai i thua 50 o unigolion a theuluoedd bregus yr wythnos, ac wrth wneud hynny, darparu ystod o wasanaethau sy’n cynnwys 5 uned o ddarpariaeth lloches, o leiaf 30 Uned o gefnogaeth Hyblyg a 14 o ymyriadau'r wythnos gan Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol.



DRAFT

Mewn blwyddyn, mae oddeutu 55-70 o ferched (84%) / dynion (16%) sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn derbyn cymorth gan Gorwel (yn ogystal â 43-55 o blant dibynnol ac mae tua un mewn chwech yn byw gyda'u partner).

Mae cyllid ychwanegol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Theuluoedd yn Gyntaf yn darparu 1.5 o staff ALIC. Mae Gorwel wedi adrodd bod 126 o blant a phobl ifanc yn derbyn cymorth yn ystod y flwyddyn drwy weithgareddau megis gwaith grŵp a chymorth i greu cyswllt â mentrau lleol eraill.

Mae arian gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i ni ddefnyddio dau swyddog cyswllt ysgolion, yn gweithio ar draws ysgolion Gogledd Cymru, i gynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn hyrwyddo perthnasau iach a chodi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion am faterion yn ymwneud â Thrais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

### Blaenoriaethau 2019/20

- Parhau gyda'r gwaith o ddylunio a chynllunio cyfleuster Gofal Ychwanegol ym ardal Seiriol.
- Cyflwyno ein Pecynnau Gofal Maeth Lefel Uwch i ddenu mwy o ofalwyr maeth.
- Lansio ein Prosiect Cartrefi Clud Môn, sydd â'r nod o ddarparu llety addas yn lleol ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Mesur Safonau Ansawdd 6:**

- Yn ystod asesiad/ailasesiad, roedd 99% yn gallu trafod eu problemau yn eu dewis iaith

DRAFT

## Sut ydym yn gwneud yr hyn ydym yn ei wneud

### A) Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

*'mewn perthynas â'r Ddeddf, strategaeth gweithlu sy'n cefnogi'r ddealltwriaeth a'r gallu i weithredu'r newidiadau, rolau newydd (e.e. mewn partneriaethau ffurfiol ac ar gyfer gwasanaethau CSYM), gofynion dysgu a datblygu"*

Mae'r Uned Datblygu Gweithlu yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r bartneriaeth gofal cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu ar gyfer y gweithlu a manteisir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun.

Nodir isod y meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir:

- y Gweithlu Gofal Cartref er mwyn paratoi ar gyfer cofrestru a chefnogi gwybodaeth/Rôl Unigolion Cyfrifol
- hyfforddi, datblygu a chymhwyso Rheolwyr Gofal Cymdeithasol
- Ymarfer Gofal a Chymorth sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau
- Rhaglenni cymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Rhaglenni Ôl-gymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau cyffredinol mewn perthynas â gofal Cymdeithasol
- Caniatáu i'r gweithlu gwrdd ag anghenion statudol ar gyfer cymhwyso a/neu gofrestru

Mae enghreifftiau o'r math o gynlluniau a drefnwyd yn cynnwys hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddulliau seiliedig ar gryfderau drwy fodel y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd o Adeiladu Teuluoedd Cryfach; cyflwynwyd hyfforddiant arbenigol hefyd ar Sgiliau Llys ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

Yn ogystal, hyrwyddodd a threfnodd yr Uned Datblygu Gweithlu nifer o sesiynau Rhanbarthol a Lleol er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i sicrhau bod ein Rheolwyr yn cael gwybod am ofynion y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac, o ganlyniad, bod staff yn derbyn cefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â'r gofynion.

Yn ogystal, nodwyd nifer o feysydd datblygu i'w blaenoriaethu a'u cynnwys yn y cynllun datblygu. Nodir enghreifftiau ohonynt isod:

| **Teitl y Cwrs** | **Cwrs** | **Nifer a fynychodd** |
|---|---|---|
| Dementia | Dyfarniad L2 | 21 |
| | Dyfarniad L3 | 18 |
| Dementia | Sesiwn codi ymwybyddiaeth i staff ar draws y sector gofal, goruchwylwyr a theuluoedd | 80 |
| Trefnwyd yr holl hyfforddiant yn unol â'r cynllun gweithredu Dementia a'r Fframwaith Gwaith Da | Nam ar y Synhwyrau | 25 |
| | Gofal Diwedd Oes / Lliniarol | 15 |
| | Dementia ac Anabledd Dysgu | 25 |
| | Cyfathrebu a gofal sy'n canolbwyntio ar y person wrth ddelio gydag ymddygiad y gellir ei ystyried yn heriol. | 25 |
| Ysbrydoli diwylliant o ofalu am unigolion sydd â dementia, wedi ei gefnogi gan y fframwaith Gwaith Da | Ysbrydoli newid diwylliant - rhaglen hyfforddiant 3 diwrnod ar gyfer Rheolwyr Cartrefi Gofal | 15 |
| Cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Cyflwyniad i beth yw canlyniadau a sut mae trosi hynny o bapur i ymarfer, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Deall yr agwedd at ganlyniadau a sut mae canlyniadau yn cael eu rhoi mewn cynlluniau gofal a chymorth ac ymarfer. | 75 |
| Sefydlu | Cefnogi gweithrediad fframwaith sefydlu Cymru gyfan dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru | 20 |
| Cymwysterau Gofal | L2 Oedolion | 12 |
| | L3 Oedolion/Plant a Phobl Ifanc | 12 |
| | L4 Camu ymlaen i fod yn Rheolwr | 1 |
| | L5 Dyfarniad uwch ymarferydd | 4 |
| Gweithlu a Reoleiddir | Sesiynau codi ymwybyddiaeth am sut i gofrestru gofalwyr cartref erbyn 2020 a thu hwnt. Gweithdai gofal cartref yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a rheoleiddio'r gweithlu o fewn yr amserlen a nodir | 75 |

DRAFT

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor a 2 Awdurdod Lleol arall er mwyn cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol, a llwyddwyd i recriwtio 2 hyfforddai gwaith cymdeithasol arall. Ar hyn o bryd, mae 2 yn astudio am B.A. mewn Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, tra bod y myfyriwr arall yn astudio am M.A. ym Mhrifysgol Bangor.

Rydym wedi parhau i gefnogi ymarferwyr sydd newydd gymhwyso trwy eu tair blynedd gyntaf o ymarfer, gwaith sy'n cynnwys y Rhaglen Atgyfnerthu, Porth Agored. Bu i 3 aelod o staff gwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus yn ystod 2018-19.

Nodir isod fwy o wybodaeth am gyflawniadau gwaith cymdeithasol ar ôl cymhwyso:-

| **Rhaglen** | **Nifer a gwblhaodd yn llwyddiannus yn 2018/19** |
|---|---|
| Dyfarniad Addysgu Ymarfer | 4 |
| Asesydd Budd Pennaf | 1 |
| Rhaglen Ddatblygu Rheolwyr Tîm | 2 |
| Rhaglen Ddatblygu Rheolwyr Canol | 1 |

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn parhau i gefnogi staff cymwys i ddilyn modiwlau dwy'r Rhaglen Ymarferydd Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol ac Uwch Ymarferydd mewn Gwaith Cymdeithasol.

## SGILIAU IAITH GYMRAEG

Er mwyn cefnogi'r agenda "Mwy na Geiriau", mae'r Awdurdod yn gefnogol iawn o ddatblygu staff yn y maes hwn ac yn annog staff i fynychu ystod eang o gyrsiau/hyfforddiant er mwyn rhoi sylw i'w hanghenion unigol/codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd sgiliau iaith dwyieithog. Gweler y tabl isod am restr o'r cyfleoedd amrywiol a drefnwyd yn 2019-19:

| **Cwrs** | **Nifer y Staff Gwasanaethau Cymdeithasol a fynychodd** |
|---|---|
| Yr Iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr (sesiynau wythnosol) | 5 |
| Yr Iaith Gymraeg (Cymraeg yn y Gweithle) | 2 |
| Datblygu sgiliau iaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl | 6 |
| Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg / Mwy na Geiriau | 3 |

## HYFFORDDIANT DIOGELU

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar sicrhau fod staff ar draws yr holl wasanaethau yn derbyn yr hyfforddiant Diogelu perthnasol. Cynhwysir rhaglen gynlluniedig o gyrsiau Diogelu Sylfaenol a Chyffredinol yn y cynllun Datblygu Blynyddol sydd ar gael i'r holl staff gofal (Awdurdod Lleol/Sector Breifat/Gwirfoddol). Nodir manylion presenoldeb isod. Yn ogystal, trefnwyd cyrsiau penodol i sicrhau fod sgiliau'r gweithlu'n cael eu huwchraddio mewn meysydd arbenigol. Gweler y manylion isod:

| Maes Diogelu | Nifer Fynychodd |
|---|---|
| Diogelu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol | 23 |
| Diogelu Cyffredinol (diwrnod cyfan) | 99 |
| Diogelu Sylfaenol (hanner diwrnod) | 8 |
| Beth? Pam? Sut? Cofnodi ac Adrodd am Hyfforddiant | 48 |
| Hyfforddiant Ymchwilio ar y Cyd | 6 |

**E-Ddysgu**

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddefnyddio E-Ddysgu fel dull cyfunol o Ddysgu. Mae amrywiaeth o raglenni ar bob lefel ar gael i staff eu dilyn fel rhan o'u Datblygiad Personol ac mae modd cael mynediad atynt unrhyw bryd ac o unrhyw le. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i ddatblygu meysydd allweddol e.e. Diogelu Sylfaenol, Hylendid Bwyd, Gwybodaeth am Iechyd, Caethwasiaeth Fodern ac Ymwybyddiaeth Seibr.

Mae'r tabl isod yn amlinellu rhai o'r modiwlau a gwblhawyd gan staff Gofal Cymdeithasol:

| Modiwl | Nifer a gwblhawyd | Canran |
|---|---|---|
| Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 224 | 37% |
| Caethwasiaeth Fodern | 189 | 31% |
| GDPR | 196 | 33% |
| Offer Sgrin Arddangos (DSE) | 174 | 29% |

## B) Ein Hadnoddau Ariannol a sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor o ganlyniad i bwysau ariannol parhaus ac estynedig; mae'r cyllid a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru (LlC) wedi gostwng o £101m yn 2013/14 i £95.8m yn 2019/20. Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, mae'r Cyngor wedi gwneud dros £20m o doriadau i'r gyllideb yn ystod yr un cyfnod. Roedd y sefyllfa diwedd blwyddyn yn dangos gorwariant o £3,001k yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018/19.

Roedd gorwariant o £1,830k yn y Gwasanaethau Plant, yn bennaf oherwydd cynnydd pellach yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal - ar 31/03/2019, roeddem yn gofalu am 149 o Blant sy'n Derbyn Gofal, cynnydd o 4.2% o gymharu â 143 yn 31/03/2018. Gall un lleoliad All Sirol gostio hyd at £250k y flwyddyn. Dyrannwyd £1.39m o gyllid ychwanegol i gyllideb y Gwasanaethau Plant ar gyfer 2019/20 er mwyn cwrdd â'r pwysau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y Plant yn ein gofal. Yn ogystal, mae'r arian a roddwyd i'r Gwasanaeth rhwng 2016/17 a 2018/19 i sefydlu tîm Trothwy Gofal, gyda'r bwriad o leihau nifer y Plant a roddir mewn Gofal, wedi cael ei ychwanegu'n barhaol i gyllideb 2019/20.

Roedd gorwariant o £1,171k yn y Gwasanaethau Oedolion yn 2018/19, yn bennaf oherwydd (i) ffioedd uwch o ganlyniad i gynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a chyfraddau pensiwn a (ii) cynnydd yn y galw am Wasanaethau. Rhoddwyd cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Oedolion drwy grant o £670k gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i gwrdd â'r pwysau hwn yn 2019/20. Sefydlwyd cronfa wrth gefn ychwanegol o £277k ar gyfer 2019/20 er mwyn cwrdd â phwysau yn sgil galw ychwanegol am Wasanaethau.

Serch hynny, mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod y sefyllfa bresennol o gynni ariannol ac yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli galw, gyda'r Gwasanaethau Oedolion yn cyfrannu £350k o arbedion yn 2018/19, a chytunwyd ar arbedion pellach o £586k yn 2019/20. Bydd y Gwasanaethau Plant hefyd yn edrych ar leihau eu gorwariant yn 2019/20 drwy gyflwyno Tai Grŵp Bach ar yr Ynys, gyda'r bwriad o leihau nifer y plant a leolir yn all sirol.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod cyllideb a chynllunio cyllideb effeithiol a reolir yn dda, ac mae aelodau etholedig yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen gynllunio gylchol, ac yn craffu ar osod a monitro cyllidebau.

Mae amcangyfrif newidiadau yn y dyfodol yn her, oherwydd diffyg gwybodaeth gywir am setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol, ond mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canol yn rhagweld y gallai fod angen gwneud hyd at £6.72m o doriadau ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf, rhwng 2020/21 a 2022/23.

Mae'r tabl isod yn amlinellu cyfrifon ariannol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018/19:

| | **Cyllideb £** | **Gwirioneddol £** | **Amrywiant £** |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** | 8,727,410 | 10,557,202 | 1,829,792 |
| | | | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 7,095,640 | 7,447,693 | 352,053 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 1,720,010 | 2,055,527 | 335,517 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 6,582,830 | 7,103,668 | 520,838 |
| IECHYD MEDDWL | 1,931,410 | 2,213,940 | 282,530 |
| GWASANAETHAU CEFNOGI | 1,232,080 | 1,175,614 | -56,466 |
| **UNED DDARPARU** (GOFAL MÔN/GWASANAETHAU ERAILL) | 6,166,900 | 5,910,635 | -256,265 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU ERAILL | 59,692 | 52,542 | -7,150 |
| **CYFANSWM** | **33,515,972** | **36,516,821** | **3,000,849** |

DRAFT

## Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae llywodraethiant wleidyddol yn y Cyngor yn parhau i fod yn gadarn. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant ac i graffu ar gynnydd yn gyson.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol ac mae'r aelodau'n cynnwys yr Arweinydd ac 8 Aelod Portffolio. Mae'r Arweinydd yn parhau i fod yn Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac wedi goruchwylio ein gwelliannau dros y 2 flynedd ddiwethaf, o safbwynt gwleidyddol. Dangosir effeithlonrwydd cynyddol y Pwyllgor wrth iddo wneud penderfyniadau anodd, megis y *Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn* (er enghraifft, mae gwaith adeiladu Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni wedi cael ei gwblhau ac mae'r cyfleuster bron yn llawn). Yn dilyn arfarnu safleoedd, penderfynwyd adeiladu darpariaeth Gofal Ychwanegol arall yn ward Seiriol a neilltuo adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant er mwyn cynorthwyo i reoli galw.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae gwaith y Panel o Aelodau Etholedig a sefydlwyd yn dilyn etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant yn parhau a gwelwyd gwelliannau'n cael eu gwireddu mewn cyfnod byr o amser. Daw'r aelodau o'r gwahanol grwpiau gwleidyddol, ac mae wedi rhoi cyfle iddynt wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o waith y Gwasanaeth, gan arwain at graffu'n well.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydnabuwyd hyn fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol i ni adeiladu arnynt. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i fod yn rhan weithredol o agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y caiff y Gwasanaethau Cymdeithasol eu darparu trwy gydweithredu.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy Rhaglen Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan y Gydweithredfa raglen wella gynhwysfawr yn ei lle trwy gydweithio, gan ganolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir gweld tystiolaeth bellach o'r ethos partneriaeth hwn trwy gydweithio rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a BIPBC drwy'r Bwrdd Cyflawni Integredig. Pwrpas y Bwrdd Cyflawni Integredig yw sicrhau fod anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn cael eu gwasanaethu'n well wrth i wasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol gael eu hintegreiddio'n well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflawni Integredig, gyda chyfrifoldeb dros gyflwyno'r Rhaglen Waith Fanwl.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn

benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn a phobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Gwariwyd y Gronfa Gofal Integredig ar ddatblygu Garreglwyd fel cartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a gwasanaethau Gofal Uwch Môn a Night Owls o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae bwrdd partneriaeth ar y cyd i Wynedd a Môn wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys prif sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth. Defnyddiwyd yr asesiad a gwblhawyd gan y Bwrdd yn 2017/18 gan bartneriaid i ddrafftio'r cynllun Llesiant a fabwysiadwyd yn ystod 2018/19. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cael ei weithredu.

Rydym yn parhau i ymgynghori'n agos â'r **Trydydd Sector** a gweithio mewn partneriaeth trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol sy'n cwrdd bob chwarter. Rydym yn cydnabod rôl y **Trydydd Sector** yn lleol fel partner strategol ac rydym wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn, er enghraifft, rôl Medrwn Môn ar grŵp gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu grŵp partneriaeth y trydydd sector sy'n gyfrifol am gyflawni amcanion y Cyngor a sicrhau y cydymffurfir â thechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid.

**Perfformiad**

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgorffori fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mabwysiadwyd y fframwaith hwn i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai gwaith monitro adnabod materion cyn iddynt danberfformio – rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion.

Mae'r arfer hwn wedi gweld gwelliannau mewn nifer o ddangosyddion gwasanaethau cymdeithasol, gyda llwyddiant arbennig yn cael ei weld ym mherfformiad dangosyddion gofal a ddarperir i Oedolion. Mae Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y Gwasanaethau Plant wedi gwella hefyd a rhagwelir y bydd ffocws parhaus drwy gyfrwng y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn gwella perfformiad a chysondeb ymarfer ymhellach, a oedd yn flaenoriaethau ar gyfer 2018-19.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7HB

Cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 01248 751887

E-bost: Emmaedwards@anglesey.gov.uk

DRAFT

Astudiaethau achos y gellir eu cynnwys

## 1. ASTUDIAETH ACHOS : Cydlynu Asedau Lleol Ynys Môn

Cronfa Gofal Integredig 2018/19

| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r Prosiect:** | Model newydd o weithio gyda chymunedau yw Cydlynu Asedau Lleol (CALI) ac fe'i datblygwyd ar Ynys Môn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Model ataliol ydyw, ond erbyn hyn gwelwyd ei fod o fudd i unigolion sydd efallai'n derbyn gwasanaethau statudol yn barod. Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gydag unigolion a grwpiau i ddatblygu a defnyddio rhwydweithiau lleol i hyrwyddo atebion lleol i anghenion lleol. |
| **Nod y Prosiect:** | • Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn ein cymunedau.<br>• Hyrwyddo byw'n annibynnol; dewis pobl a'u rheolaeth dros eu bywydau eu hunain;<br>• Hyrwyddo bywyd iachach a lleihau anghyfartaledd iechyd;<br>• Datblygu rhagnodi cymdeithasol – cryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol a gwasanaethau'r awdurdod lleol. |
| **Canlyniadau'r Prosiect:** | • Mae pobl yn fwy gwybodus ac yn gwybod lle y gallant gael cyngor a chymorth ynghylch gweithgareddau fyddai'n helpu i atal neu leihau arwahanrwydd ac unigedd a hyrwyddo iechyd a llesiant.<br>• Mae mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'n sy'n helpu i hyrwyddo annibyniaeth a gwytnwch, ac yn lleihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen. |
| **Ynglŷn â'r Person:**<br>*Beth yw eu hoedran? Ydyn nhw'n byw ar eu pen eu hunain? Oes ganddynt deulu/ffrindiau gerllaw? Sut mae eu lles cyffredinol?* | Cyfeiriwyd Brian i wasanaeth Cydlynu Asedau Lleol Caergybi drwy gydweithiwr CALI (Gwyneth) a oedd eisoes yn adnabod Brian.<br>Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn ei gartref. Yn ystod ein sgwrs, siaradodd am ei wraig a sut yr oedd wedi gofalu amdani am dros 30 mlynedd, tan ei marwolaeth ym mis Ionawr 2017. Dywedodd ei fod yn unig iawn, nad oedd ganddo neb i droi atynt ac nad oedd ganddo ffrindiau na theulu yn byw'n lleol – roeddent yn byw yn Lloegr ac yn Japan. Mae gan Brian fab, ond am reswm nad yw'n hysbys i Brian, roedd y mab wedi torri cysylltiad ag o'n llwyr. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Mae Brian yn byw mewn fflat llawr gwaelod ar stad newydd, ac ers symud yno bedair blynedd yn ôl, roedd o a'i wraig wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y plant lleol. Byddent yn taflu cerrig at ei fan, yn camu allan o flaen y fan, canu cloch y drws, rhoi eu dwylo drwy ffenestri'r fflat er mwyn gafael mewn pethau. Digwyddodd y digwyddiad penodol hwn pan oedd ei wraig yn ei gwely'n sâl. Cafodd Brian ei gam-drin yn eiriol hefyd pan siaradodd â'r rhieni am ymddygiad eu plant tuag ato a'i wraig. Tynnwyd sylw'r Heddlu a'r landlordiaid at yr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gan Brian fab, ond am reswm nad yw'n hysbys i Brian, mae o wedi torri cysylltiad ag o. |
| **Beth oedd y sefyllfa:**<br>*Disgrifiwch sut y daeth y person i gysylltiad â'r gwasanaeth yr ydych yn ysgrifennu amdano. Os yw'n berson hŷn – pa her neu broblem oeddent yn ei wynebu a pha effaith oedd hynny'n ei gael ar eu bywyd* | Cyfeiriwyd Brian at wasanaeth Cydlynu Asedau Lleol Caergybi drwy gydweithiwr (Gwyneth) a oedd eisoes yn adnabod Brian.<br>Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn ei gartref. Yn ystod ein sgwrs, siaradodd am ei wraig a sut yr oedd wedi gofalu amdani am dros 30 mlynedd, tan ei marwolaeth ym mis Ionawr 2017. Dywedodd ei fod yn unig iawn, nad oedd ganddo neb i droi atynt ac nad oedd ganddo ffrindiau na theulu yn byw'n lleol – roeddent yn byw yn Lloegr ac yn Japan. |
| **<u>Datganiad o effaith</u>**<br>**Sut wnaeth y gwasanaeth wneud gwahaniaeth?**<br>*Disgrifiwch pa gamau gymerodd y gweithiwr achos/gwirfoddolwr i roi cefnogaeth* | 1. **Mawrth 2018 -** Roedd Brian yn dechrau canolbwyntio a siarad am drawma'r misoedd blaenorol, colli ei wraig, bod yn ddioddefwr trosedd a chael ei gynnwys mewn asesiad iechyd meddwl nad oedd o'n ei groesawu. Gyda'n gilydd, blaenoriaethwyd sut yr oedd Brian eisiau rheoli a delio gyda'r hyn yr oedd o'n ystyried yn ddigwyddiadau trawmatig.<br><br>2. Cysylltwyd â'r Meddyg Teulu a sicrhawyd fod Brian yn glir ynghylch y feddyginiaeth gywir yr oedd o fod i'w gymryd.<br><br>3. Cefnogwyd Brian i fynychu sesiynau cwnsela profedigaeth CRUSE dros gyfnod o 6 wythnos.<br><br>4. Cefnogwyd a rhoddwyd cyngor i Brian am faterion ariannol – biliau cyfleustodau, contractau ffôn, apwyntiadau ysbyty ac apwyntiadau meddyg teulu a fethwyd.<br><br>5. **Ebrill 2018 –** cyflwynwyd Brian i'r *Men's Shed*. Trobwynt i Brian oedd pan wnaeth ffrindiau â Richard, oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar hefyd. Byddai'r ddau ddyn yn cyfarfod yn y sied bron bob dydd i wneud pa bynnag waith oedd angen ei wneud – |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | casglu sbwriel, adeiladu gwlâu blodau a chreu bwrdd bwydo adar oedd yn golygu gwneud gwaith manwl.<br><br>**6.** Cyflwynwyd Brian i wirfoddolwyr a chleientiaid y clwb cinio lleol.<br><br>**7.** Crëwyd ymyrraeth rhwng Brian a dyn lleol a oedd yn gallu helpu i sefydlu system ddiogelwch y cartref, a darparu teledu cylch cyfyng 24 awr yn ei gartref.<br><br>**8.** Gweithiwyd mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Dai Brian a'r Heddlu i gynnal digwyddiad cymunedol. Sesiwn galw i mewn oedd hon yn rhoi cyfle i'r tenantiaid (teuluoedd a phlant ifanc yn bennaf) alw heibio'r ganolfan gymunedol am baned o de, cwrdd â'u cymdogion a siarad gyda swyddog cyswllt y Gymdeithas Dai a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) ynghylch unrhyw bryderon oedd ganddynt am y stad. Deilliodd budd cymunedol ehangach o hyn o ran diogelwch cymunedol.<br><br>**9.** Rhoddwyd cefnogaeth i Brian gael sgan MRI (ar yr asgwrn cefn) a sgan ar yr ymennydd ac i dderbyn y canlyniadau.<br><br>**10.** Rhoddwyd cefnogaeth i Brian fynychu sesiynau hyfforddiant a llesiant. |
| **Pa ganlyniadau a gyflawnwyd?**<br>*Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth? Pa effaith gafodd yr ymyraethau?* | • O fewn tri mis, mae Brian yn mynychu dau grŵp cymunedol – Clwb Cinio a *Men's Shed*. Mae o'n cymryd camau pendant i ddatblygu hen sgiliau gyda dynion eraill ac yn helpu eraill i ddysgu.<br><br>• Naw mis yn ddiweddarach, mae gorbryder Brian wedi lleihau'n sylweddol, ac nid yw angen cyswllt dwys gyda'r Cydlynydd Asedau Lleol erbyn hyn. Fodd bynnag, rydym yn cadw mewn cysylltiad ag o yn wythnosol drwy'r *Men's Shed* a'r Clwb Cinio.<br><br>• Cysylltwyd â Meddyg Teulu Brian er mwyn adolygu ei gyflwr Diabetes a'r cyflwr hirdymor ar ei asgwrn cefn.<br><br>• Yn ogystal â'r uchod, cysylltwyd ag arbenigwr Diabetes a gwasanaethau Niwroleg.<br><br>• Mae Brian yn dilyn cwrs TG i ddysgu sut i ddefnyddio Skype, Facebook a sut i siopa ar-lein – erbyn hyn mae o'n cysylltu â'i deulu yn Swydd Efrog a Japan.<br><br>• Cymerodd Brian ran mewn tair Rhaglen Cleifion Arbenigol – Rheoli Diabetes, Bwyd Doeth a Diabetes a Rheoli Poen Cronig. Bu iddo elwa drwy reoli ei gyflwr diabetes a'i boen cronig yn well drwy gymryd rhan mewn rhaglen ymarfer corff nad yw'n gyfyngedig. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Cysylltu â'r CPN a oedd yn gyfrifol am gynnal yr asesiad iechyd meddwl cychwynnol a darparwyd gwybodaeth ddefnyddiol i ddangos gweithgareddau dyddiol Brian a'i lefelau gweithredu: e.e. roedd yn ymwneud â phrosiectau gwaith llaw manwl iawn yn y *Men's Shed.*<br><br>• Cyflawnwyd trosedd arall yn fflat Brian – y tro hwn casglwyd tystiolaeth ar **gamerâu cylch cyfyng** a chadarnhawyd mai plant lleol oedd yn gyfrifol – ymatebodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gyflym i hyn a rhoddwyd sylw i'r mater.<br><br>• Roedd y Seiciatrydd Ymgynghorol yn cydnabod rhwystredigaeth ac ansicrwydd Brian ynghylch pam y bu'n rhaid iddo gael ei asesu. Gofynnodd gwestiynau i'r Cydlynydd Asedau Lleol a Brian am y dulliau yr oeddent wedi eu defnyddio yn ystod y broses anodd hon, a gwnaeth sylwadau am eu llwyddiant, ac am werth ymyrraeth y Cydlynydd Asedau Lleol.<br><br>• Nid oedd canlyniadau sgan ar yr ymennydd yn dangos unrhyw arwyddion o ddementia na nam gwybyddol. |
| **Dyfyniadau/Adborth**<br>*Rhowch ddyfyniad uniongyrchol gan y defnyddiwr gwasanaeth. Beth oedd ganddynt i'w ddweud am y gwasanaeth a gafwyd a'r effaith a gafodd arnynt?* | Mae Brian wedi rhoi caniatâd i ni adrodd ei stori, fel y dywedodd –<br>"y mwyaf o bobl sy'n gwybod beth yr ydw i wedi ei ddioddef, y gorau". "Wedyn, efallai y byddai pobl yn cymryd mwy o amser i wrando ac i ddeall beth mae pobl yn mynd drwyddo pan maent yn teimlo'n ynysig ac yn unig ar ôl colli rhywun agos". "Heb gymorth y Cydlynydd Asedau Lleol, dydw i wir ddim yn gwybod lle fyddwn i heddiw". |

DRAFT

## 2. ASTUDIAETH ACHOS

Cronfa Gofal Integredig (ICF) 2018/19

| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r Prosiect:** | Mae'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr di-dâl mewn ysbytai a'r gymuned; rydym yn eu cyfeirio, cynghori a'u hatgyfeirio at asiantaethau addas a all gynnig cefnogaeth iddynt. |
| **Amcanion y Prosiect:** | Asesu a chyfeirio gofalwyr at asiantaethau addas er mwyn lleihau'r straen arnynt. |
| **Canlyniadau'r Prosiect:** | Mae gofalwyr yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth, yn cael gwybodaeth ac yn cael eu haddysgu am y cymorth sydd ar gael iddynt o ran budd-daliadau, grwpiau cymunedol ayb. |
| **Ynglŷn â'r Person:**<br>*Beth yw eu hoedran? Ydyn nhw'n byw ar eu pen eu hunain? Oes ganddynt deulu/ffrindiau gerllaw? Sut mae eu lles cyffredinol?* | Yn yr achos hwn, y person yw prif ofalwr ei brawd, sydd yn dioddef o ganser. Mae'r gofalwr yn 56 oed ac yn briod ac mae ei merch, mab yng nghyfraith a wyres yn byw gyda hi. Dywed yr ofalwraig fod ei theulu yn gefnogol. Fodd bynnag, dywedodd ei bod dan lawer o bwysau gan fod iechyd ei thad a'i brawd wedi dirywio. |
| **Beth oedd y sefyllfa:**<br>*Disgrifiwch sut y daeth y person i gysylltiad â'r gwasanaeth yr ydych yn ysgrifennu amdano. Os yw'n berson hŷn – pa her neu broblem oeddent yn ei wynebu a pha effaith oedd hynny'n ei gael ar eu bywyd* | Yn wreiddiol, cyfeiriwyd chwaer yr ofalwraig at y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gan Nyrs Staff ar ward Ogwen, gan mai hi oedd prif ofalwraig eu tad oedrannus a gafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar ôl disgyn. Bryd hynny, gofynnodd yr ofalwraig am gael ei chyfeirio hefyd am ei bod hithau'n ei chael yn anodd ymdopi â'i rôl fel gofalwr. Roedd yr ofalwraig a'i theulu'n wynebu nifer o heriau, gan gynnwys bregusrwydd y tad, problemau llety, problemau ariannol a chanser yr ysgyfaint lliniarol ei brawd a oedd wedi creu'r angen am ofalwr. Awgrymwyd atebion posib a'u rhoi ar waith, gan gynnwys rhoi cyngor ynglŷn â budd-daliadau, cyfeiriadau i asiantaethau cefnogi eraill, cymorth ariannol a chefnogaeth emosiynol. |
| <u>**Datganiad o effaith**</u><br>**Sut wnaeth y gwasanaeth wneud gwahaniaeth?**<br>*Disgrifiwch pa gamau gymerodd y gweithiwr achos/gwirfoddolwr i roi cefnogaeth* | Rhoddodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gefnogaeth i'r teulu drwy ddarparu cefnogaeth emosiynol yn seiliedig ar y materion a'r problemau yr oeddent yn eu wynebu yn ddyddiol.<br>Darparwyd gwybodaeth am ba fudd-daliadau oedd ar gael, yn cynnwys PIP a Lwfans Gofalwyr. Gwnaed cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.<br>Gwnaed ceisiadau am grantiau i'r Roy Castle Fund, MacMillan Cancer Support a chronfa ysbaid gofalwyr Gwynedd (a reolir ac a weinyddir gan y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr).<br>Gwnaed cais am Fathodyn Glas er mwyn hwyluso trefniadau parcio wrth deithio i ac o apwyntiadau gyda'r sawl sy'n derbyn gofal.<br>Gwnaed cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.<br>Gwnaed cais i'r cynllun WaterSure Cymru er mwyn capio/lleihau biliau dŵr. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Pa ganlyniadau a gyflawnwyd?**<br>*Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth? Pa effaith gafodd yr ymyraethau?* | Bu gostyngiad sylweddol yn lefelau straen yr ofalwraig, gan fod y teulu cyfan yn derbyn cefnogaeth, a ffurfiwyd perthynas gadarnhaol rhwng y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, y gofalwr a'r ysbyty.<br>Roedd yr ofalwraig yn teimlo y gallai siarad yn gyfrinachol â rhywun ac y gallai ofyn am gyngor a chefnogaeth. Lleihawyd y baich ariannol ar y person oedd yn derbyn gofal o ganlyniad iddo dderbyn cymorth ariannol, yn cynnwys grantiau, budd-daliadau a gostyngiadau, a fyddai o help iddo wrth dalu biliau a chostau cyffredinol yn gysylltiedig â'r cartref. Roedd y Bathodyn Glas yn sicrhau fod yr ofalwraig yn gallu mynd â'i brawd i'w apwyntiadau er gwaetha'r ffaith fod ei allu i symud yn dirywio.<br>Mae'r ofalwraig wedi gofyn am ofal ysbaid fydd yn rhoi amser iddi ddod ati ei hun yn emosiynol ac yn gorfforol, gan y bydd y gwaith o ofalu am ei brawd yn fwy heriol ac yn cynyddu gydag amser. |
| **<u>Dyfyniadau/Adborth</u>**<br>*Rhowch ddyfyniad uniongyrchol gan y defnyddiwr gwasanaeth. Beth oedd ganddynt i'w ddweud am y gwasanaeth a gafwyd a'r effaith a gafodd arnynt?* | Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y cymorth a'r gefnogaeth a roddwyd yn ystod y cyfnod anodd hwn. "Anhygoel. Mae'n gwybod ei gwaith tu chwith allan. Nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth. Mae hi'n dda efo'r claf a'r teulu. Fyddwn i ddim wedi gallu ymdopi heb ei help." |

DRAFT

## 3. ASTUDIAETH ACHOS - Trosglwyddo/Gwasanaethau Arbenigol Plant

Mae P yn byw yn Llangefni gyda'i theulu ac mae ganddi anabledd dysgu ac mae'n ddisgybl yng Nghanolfan Addysg y Bont. Cyfeiriwyd P at y Gwasanaethau Arbenigol Plant ym mis Ionawr 2018, pan oedd yn 17 oed, ar gyfer y gwasanaeth Nyrsio cymunedol paediatreg Anableddau Dysgu er mwyn cefnogi'r ysgol i reoli ei hymddygiad. Nid oedd teulu P wedi gofyn am unrhyw gefnogaeth na mewnbwn gan y gwasanaethau cyn hyn.

Ym mis Mehefin 2018, fel rhan o Brosiect Trosglwyddo Partneriaeth – Y Bont – Partnership (wedi'i leoli yn yr Ysgol Arbennig), roedd yn bosib i P a'i theulu dderbyn cefnogaeth ychwanegol gan Gydlynydd Trosglwyddo'r gwasanaeth heb orfod cael cyswllt â gweithiwr cymdeithasol. Roedd modd i'r Cydlynydd Trosglwyddo weithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr proffesiynol o asiantaethau amrywiol eraill a oedd yn gweithio gyda P, er mwyn cynorthwyo i gynllunio'r Broses Drosglwyddo i'r gwasanaethau anableddau dysgu oedolion.

Roedd y tîm amlddisgyblaethol a oedd yn gweithio gyda'r teulu a'r ysgol yn cynnwys Nyrs Gwasanaethau Arbenigol Plant, Dadansoddydd Ymddygiad - Gwasanaeth Anghenion Dwys, Therapydd Iaith a Lleferydd, Asesydd Gofalwyr, Seiciatrydd Paediatreg Anableddau Dysgu, Cydlynydd Trosglwyddo ac Athrawes.

Fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion, teimlwyd y byddai'n gam gadarnhaol i P ehangu ei hystod o ddiddordebau a gweithgareddau er mwyn ei helpu i fod yn fwy annibynnol, a hefyd i gefnogi ei rhieni yn eu rôl fel gofalwyr drwy ei gwneud yn bosib iddi gael seibiant.

Ym mis Hydref 2018, cytunwyd gyda'r teulu y byddai'n briodol cyflwyno gweithiwr cymdeithasol o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant, i edrych ar y math o gefnogaeth fyddai'n helpu P ac i gefnogi'r teulu drwy'r cyfnod o drosglwyddo i'r Gwasanaethau Oedolion.

Fel rhan o Gynllun Gofal a Chymorth P, defnyddiodd y teulu daliadau uniongyrchol er mwyn iddi fedru cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn y gymuned ac mae hyn wedi rhoi cyfle i P ddatblygu ei hannibyniaeth a'i sgiliau cymdeithasol gyda chefnogaeth 2 gynorthwyydd personol bob wythnos.

Dyma'r tro cyntaf i'r teulu dderbyn cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol ac roedd y berthynas hon yn golygu fod y gweithiwr cymdeithasol yn gallu dod i adnabod y teulu a sicrhau fod cysylltiad yn cael ei wneud gyda'r tîm gwaith cymdeithasol yn y gwasanaeth anableddau dysgu oedolion.

Ym mis Ionawr 2019, ymwelodd y ddau weithiwr cymdeithasol â'r teulu gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y byddai'r cyswllt gyda'r gwasanaeth Anableddau Dysgu Oedolion yn golygu bod P yn derbyn gwasanaeth di-dor a bod y teulu'n hyderus y byddai modd i'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol barhau. Yn ogystal, lle'r oedd hynny'n angenrheidiol, sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo gwasanaethau iechyd yn cael ei gydlynu gan weithwyr proffesiynol a oedd yn aelodau o'r Tîm Amlddisgyblaethol gwreiddiol. Bydd y ddau weithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi P nes ei bod yn 18 oed a bydd y Cydlynydd Trawsnewid yn parhau i ymwneud â'r broses fel rhan o'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu Oedolion, gan edrych ar weithgareddau dydd ac opsiynau eraill mewn perthynas â chyfleoedd addysg bellach.

Mae mam P wedi dweud wrth y gweithiwr cymdeithasol ei bod yn teimlo fod y Gwasanaeth Trosglwyddo wedi bod yn 'dda' a'i bod yn gwerthfawrogi'n arbennig rôl y Cydlynydd Trosglwyddo a'r Gweithiwr Cymdeithasol o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant wrth gefnogi P a'i theulu ar y pwynt hwn yn y broses drosglwyddo.

## 4. Astudiaeth Achos - Tîm o Gwmpas y Teulu

| Teulu | Mam, Tad, Merch (7), Mab (4) |
|---|---|
| **ASTUDIAETH ACHOS** | |
| Crynodeb o sefyllfa'r teulu<br><br>08-05-18<br><br>Mae gan y mab oedi yn ei leferydd a phroblemau ymddygiad sylweddol. Mae mam adra gyda'r plant bob dydd ac yn ei chael yn anodd iawn ymdopi gyda'i mab. Bydd y mab yn sgrechian ac yn strancian am bethau dibwys. Gwelwyd y teulu i gynnal asesiad cychwynnol ar 21/10/16 ac fe'u cyfeiriwyd i'r Tîm Therapi Iaith oherwydd yr oedi yn y lleferydd. Mae'r mab wedi bod yn mynychu lleoliad cyn-ysgol ers hynny hefyd a dywed mam fod ei leferydd wedi gwella o ganlyniad i hynny. Mae'r ysgol wedi rhoi un gweithiwr i weithio gydag o am nad yw'n gallu canolbwyntio ond am gyfnod byr. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae ei fam wedi gweld ei ymddygiad yn mynd yn fwy a mwy heriol. Nid yw'n cysgu'n dda, mae ei leferydd wedi cymryd cam yn ôl ac mae o'n sgrechian llawer. Dywed ei fam ei fod yn gwylltio oherwydd ei rwystredigaeth. Mae'r mab yn hoff o drefn a strwythur ac mae'n hoelio ei sylw i gyd ar deganau penodol neu raglenni cartŵn penodol ar y Teledu. Mae o wrth ei fodd gyda theganau synhwyraidd. Yr unig amser y mae o'n dawel ac yn cymryd rhan mewn gweithgaredd yw pan ei fod yn y bath. Dywed mam nad yw'n gallu gweld perygl ac os nad yw'n cael ei glymu i'r gadair wthio pan fyddant yn mynd allan bydd yn rhedeg i ffwrdd neu'n rhedeg o flaen ceir. Mae mam yn dioddef o straen a gorbryder ac yn teimlo ei bod wedi cyrraedd pen ei thennyn gyda'i mab. Mae mam yn teimlo fod ei pherthynas gyda'i phartner a'i merch dan straen oherwydd y mab. Maent yn derbyn cefnogaeth dda gan eu teulu yn lleol ond yn aml mae mam yn anfodlon rhannu ei phroblemau gyda nhw. Mae ei chwaer yn helpu llawer gyda'r plant. Mae'r mab yn teimlo'n gyfforddus efo hi hefyd. Bu'n rhaid iddynt leihau'r amser y mae'r mab yn ei dreulio'n yr ysgol o un diwrnod am resymau ariannol.<br>Cyfeiriwyd y mab at y paediatregydd cymunedol ac mae'r ysgol wedi rhoi mwy o gymorth mewn lle.<br><br>Nid yw'r mab yn ymwybodol o ddiogelwch ffordd, a bydd yn rhedeg yn syth i'r ffordd. Cefnogaeth i'r teulu wneud cais i'r Adran Dai i osod giât a ffens yn y cefn er mwyn i'r mab gael | Crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd<br><br>19-11-18<br><br>• Cwblhawyd gwaith yn y cartref i gynorthwyo gydag ymddygiad y mab, ac i ddatblygu hyder mam er mwyn ei pharatoi i ddilyn y cwrs Y Blynyddoedd Rhyfeddol. Aeth mam i dri sesiwn ond nid oedd yn gallu ymrwymo ei hun oherwydd problemau gofal plant. Felly, ar ôl y grŵp, parhawyd i ddarparu'r gefnogaeth yn y cartref.<br><br>• Cefnogaeth tymor byr i'r ferch mewn perthynas â rheoli emosiynau a gwydnwch, archwilio dymuniadau a theimladau'r ferch.<br><br>• Gwybodaeth am gysylltu â'r tîm Asesu Gofalwyr ynglŷn â chefnogaeth ynghylch diogelwch.<br><br>• Rhoddwyd cefnogaeth i annog a galluogi mam i fynd â'r teulu allan. Rhoi'r hyn yr oedd mam wedi'i ddysgu ar waith a chael yr hyder i fynd â'r plant allan ac i brofi ei gallu i reoli ymddygiad ei mab ac ymdopi â'i gorbryder ei hun, a rhoi'r hyder iddi fynd â'r plant allan ar ei phen ei hun.<br><br>• Rhoi cefnogaeth i mam gael y mab allan o'i glytiau.<br><br>• Rhoi cefnogaeth i mam gyda'r ysgol a'r mab yn trosglwyddo i ysgol prif lif. |

DRAFT

<table>
<tr><td>chwarae’n rhydd tu allan heb redeg allan i’r ffordd. Byddai hyn yn cefnogi’r teulu heb achosi mwy o bryder i mam.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Canlyniad cadarnhaol: O ganlyniad i ddatblygu hyder mam, bu gwelliant yn ei gallu i rianta ac roedd yn teimlo yn fwy hyderus ac, yn ei dro, cafodd hynny effaith gadarnhaol ar ei hiechyd meddwl. Gwelwyd bod gweithredu’r cynllun Y Blynyddoedd Rhyfeddol wedi gwella ymddygiad y mab ac wedi cynorthwyo mam i reoli ei ymddygiad. Roedd sesiynau gyda’r ferch yn ei galluogi i archwilio ei dymuniadau ac i weithio ar reoli ei hemosiynau, a rhoi’r gallu iddi sianelu ei dicter mewn ffordd fwy cadarnhaol. Mae’r mab wedi dod allan o’i glytiau erbyn hyn ac yn setlo’n dda yn yr ysgol. Rhoddodd y Tîm o Gwmpas y Teulu gefnogaeth gyda materion ariannol y teulu mewn perthynas â budd-daliadau ac roeddent yn cydlynu ac yn cyfathrebu gydag asiantaethau pan oedd mam yn ei chael yn anodd gwneud hynny.<br><br>Sylwadau’r Rhieni: Trawsnewidiad anghygoel o gymharu â’r amser hwn y llynedd. Dwi’n mwynhau pethau bob dydd ac yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Ni allaf ddiolch digon i’r Tîm o Gwmpas y Teulu am yr holl gefnogaeth a ddarparwyd. Byddaf yn ddiolchgar am byth.</td></tr>
</table>

DRAFT

## 5. ASTUDIAETH ACHOS –

Cyfeiriwyd Teulu B at y Swyddog Lles Addysg a’r Ymwelydd Iechyd oherwydd pryderon am Iechyd a Lles Emosiynol y plentyn ac anghenion dysgu posib o fewn yr ysgol.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda’r teulu yn yr ysgol a chytunwyd ar gynllun gweithredu. Roedd y cyfarfod yn cynnwys y plentyn a’r teulu a chynrychiolwyr o’r Ysgol, yr Uned ABC, y Nyrs Ysgol, Therapi Iaith a Lleferydd, Therapydd Chwarae, SNAP Cymru, y Gymdeithas Dai, swyddog lles Addysg a'r Tîm o Gwmpas y Teulu.

Mae cyflawniadau plentyn B yn yr ysgol wedi gwella ac mae’r plentyn wedi cael ei ail integreiddio i’r dosbarth prif lif o’r Grŵp Anogaeth.

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

To consider options for the re-tendering of contracts when the current contracts end (Social Services Matter)

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Paragraph 13, Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>bydd y cyhoedd yn elwa ar dryloywder mewn perthynas â materion dan gontract sy'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol<br><br>the public will benefit from transparency in relation to contracted matters involving social services provision</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu hunaniaeth grŵp o unigolion gan mai dim ond canran fach o boblogaeth Ynys Môn yw'r bobl yr effeithir arnynt gan y ddarpariaeth a drafodwyd yn yr adroddiad sylweddol ac felly byddant yn hysbys yn eu cymunedau<br><br>because the report includes information which is likely to reveal the identity of a group of individuals as the people affected by the provision discussed in the substantive report form only a small percentage of the population of Ynys Môn and therefore will be known in their communities.</td></tr>
</table>

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Cynllun Tai Cyngor newydd yn Rhosybol

Rhosybol New Council Housing Scheme

Paragraff(au) Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972

**Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol** / Information relating to a particular individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn** / Information which is likely to reveal the identity of an individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)
**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:-** / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:-
**Deddf Cwmnïau 1985** / the Companies Act 1985 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974** / the Friendly Societies Act 1974 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992** / the Friendly Societies Act

<table>
<tr><td colspan="2">1992 Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978 / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 / the Building Societies Act 1986; neu / or Deddf Elusennau 1993 / the Charities Act 1993<br>Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod) / Public Interest Test applies (see below)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mi fyddai’r cyhoedd a’r datblygwr yn gweld faint mae’r Cyngor yn fodlon talu am dai cyngor newydd cyn bod cytundeb pris wedi ei gytuno’n derfynol.<br><br>This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, the public and developers would see how much the Council is willing to pay for new Council houses before the price has been finally agreed.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mai’n bosibl y byddai’n gallu i negydu contractau gyda contractwyr eraill yn y dyfodol yn anoddach.<br><br>Byddai cyhoeddi’r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae’r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.<br><br>This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, it is possible that the ability to negotiate contracts with other contractors would be more difficult in future.<br><br>Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank